



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Gweithredu Cam 1 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Tachwedd 2016

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in English.

Gweithredu Cam 1 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol
(Cymru) 2016 – Crynodeb Ymgynghori

<u>Cynnwys</u>	Tudalen
<u>Adran 1</u>	
Cyflwyniad	2
Cefndir	3
Y dystiolaeth o blaid newid	3
Y cynnig	4
<u>Adran 2</u>	
Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad	5
Dadansoddiad Llywodraeth Cymru 39	
Atodiad A - Rhestr o ymatebwyr	42

Adran 1

Cyflwyniad

Cafodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") Gydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016. Mae'n diwygio'r gyfundrefn rheoleiddio ac arolygu ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Gweithredu'r Ddeddf fesul cam

Ar 22 Ionawr 2016 cyhoeddodd y cyn-Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ysgrifenedig a oedd yn amlinellu bwriadau Llywodraeth Cymru i weithredu'r Ddeddf. Nododd y datganiad strwythur clir ar ddau gam gwaith:

- Mae'r cam cyntaf (2016-17) yn cynnwys rheoliadau sy'n ymwneud â'r system newydd o reoleiddio'r gweithlu sy'n ofynnol gan y Ddeddf a'r gofyniad ar awdurdodau lleol i baratoi adroddiadau blynyddol mewn perthynas ag arfer eu swyddogaeth gwasanaethau cyhoeddus. Bwriedir ymgynghori ar reoliadau drafft sy'n ymwneud â'r broses a fydd yn sail i'r system newydd o reoleiddio gwasanaethau a'r diffiniad o Wasanaethau Eirioli ar y cam hwn hefyd.
- Mae'r ail gam (2017-2018) yn cynnwys rheoliadau sy'n ymwneud â'r gofynion a'r safonau y disgwylir i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol eu cyflawni; rheoliadau mewn cysylltiad â sefydlogrwydd y farchnad a'i goruchwyllo; a rheoliadau sy'n diffinio 'Gwasanaethau Eirioli' at ddiben rheoleiddio'r rhain.

Cynhaliwyd ymgynghoriad i geisio barn ar y rheoliadau a ddrafftwyd fel rhan o gam cyntaf y broses weithredu rhwng 28 Mehefin a 20 Medi 2016. Yn ystod y cam hwn profwyd cynigion hefyd ynglŷn â'r diffiniad o wasanaeth eirioli a reoleiddir at ddibenion paragraff 7 o atodlen 1 i'r Ddeddf.

Dosbarthwyd y ddogfen ymgynghori i amrywiaeth eang o randdeiliaid ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru yn: <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/ymgyngoriad-ar-gam-1-y-broses-o-roi-deddf-rheoleiddio-ac-arolygu-gofal-cymdeithasol>.

Hefyd, cynhaliwyd dau ddogwyddiad yn y gogledd a'r de i ategu'r ymgynghoriad. Nod y digwyddiadau hyn oedd hyrwyddo ymgysylltu â'r broses ymgynghori a dealltwriaeth o'r rheoliadau yr ymgynghorwyd yn eu cylch. Daeth tua 130 o bobl yn cynrychioli nifer o sefydliadau i'r digwyddiadau.

Cafwyd cyfanswm o 48 o ymatebion. Atodir rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad A. Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghyd â dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn Adran 2.

Cefndir

Mae Deddf 2016 yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno nifer o eitemau o is-ddeddfwriaeth drwy wneud rheoliadau a chyhoeddi canllawiau a chodau ymarfer er mwyn ategu'r fframwaith hwn a'i roi ar waith. Pan gaiff ei gweithredu'n llawn bydd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru:

- ddiwygio'r gyfundrefn rheoleiddio gwasanaethau gofal a chymorth, er mwyn sicrhau ei bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau;
- diwygio'r gyfundrefn arolygu ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol;
- ailenwi Cyngor Gofal Cymru a rhoi pwerau newydd iddo;
- diwygio'r ffordd y caiff y gweithlu gofal cymdeithasol ei reoleiddio.

Y dystiolaeth o blaid newid

Mae cryn dipyn wedi'i gyflawni gan reoleiddwyr yng Nghymru, yn bennaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chyngor Gofal Cymru, a hefyd gan y sector gofal cymdeithasol ehangach, i wireddu'r uchelgeisiau a fynegwyd pan gafodd Deddf Safonau Gofal 2000 ei gweithredu. Mae hon wedi rhoi llinell sylfaen ar gyfer safonau - i'r gweithlu ac i'n gwasanaethau gofal a chymorth - ac mae wedi gwella diogelwch y cyhoedd. Mae hyn wedi'i gwneud yn bosibl i sicrhau llawer mwy o gysondeb, diogelwch rhag cam-drin a cham-fanteisio, a mwy o gyfle i amlygu gwasanaethau sy'n is na'r safon. Rydym wedi llwyddo i wella perfformiad ac rydym yn parhau i ddefnyddio prosesau rheoleiddio ac arolygu i gael gwared ar safonau gwael.

Fodd bynnag, cydnabuwyd gennym fod llawer o bethau yn newid yn y sector a nodwyd bod angen osgoi sefyllfa lle byddai ein trefniadau rheoleiddio yn mynd yn anghyfredol ac yn gyfyngol. Felly mae ein diwygiadau i'r system rheoleiddio ac arolygu o dan Ddeddf 2016 yn seiliedig ar bum egwyddor allweddol:

1. Bod yn ymatebol i ddiwygiadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;
2. Sicrhau bod dinasyddion wrth galon gofal a chymorth;
3. Datblygu dull rhesymegol a chyson yng Nghymru
4. Mynd i'r afael â methiannau darparwyr;
5. Bod yn ymatebol i fodolau gwasanaeth newydd ac unrhyw bryderon sy'n codi ynghylch ansawdd gwasanaethau gofal a chymorth.

Y cynigion

Yn ystod cam cyntaf y broses weithredu ymgynghorwyd ar y rheoliadau drafft a oedd yn diweddarau systemau arolygu a rheoleiddio darparwyr gofal a'r ffordd roedd y gweithlu gofal cymdeithasol yn cael ei reoleiddio. Bwriedir i'r rheoliadau drafft wneud y canlynol:

- sicrhau system newydd o reoleiddio'r gweithlu o dan y Ddeddf;
- rhoi rhai o'r prosesau allweddol a fydd yn sail i'r system newydd o reoleiddio gwasanaethau ar waith;
- gosod gofynion ar adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol i baratoi adroddiadau blynyddol ar y ffordd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau;
- profi diffiniad o wasanaeth eirioli a reoleiddir at ddibenion arolygu a rheoleiddio o dan y Ddeddf.

Adran 2 - Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad

Rheoliadau ynghylch Gwasanaethau					
Rheoliadau ynghylch Ceisiadau i Gofrestru fel Darparwr Gwasanaeth					
1. Ydych chi'n cytuno bod y gofynion o ran gwybodaeth a dogfennaeth fel y'u hamlinellir yn y rheoliadau drafft yn berthnasol ac yn gymesur? Os nad ydych, pam?					
	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm	17	15	3	1	12
Crynodeb					
<p>Cytunodd y mwyafrif o'r rhai a nododd farn â'r dull gweithredu arfaethedig. Roedd 89% o bobl yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r cynnig gyda dim ond 11% o bobl yn anghytuno neu'n tueddu i anghytuno.</p> <p>Roedd testun yr ymatebion hefyd yn adlewyrchu'r gefnogaeth gyffredinol hon. Mae ymatebwyr yn cefnogi'r newid i system 'un cofrestriad fesul darparwr'. Roeddent hefyd yn teimlo bod y gofynion a awgrymwyd ar gyfer cofrestru yn ddigonol.</p> <p>Un o'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg oedd pwysigrwydd y datganiad o ddiben, yr angen i sicrhau ei fod yn gyfredol bob amser a cheisiadau am ofyniad i'w gyhoeddi.</p> <p>Gwnaeth ymatebwyr sawl awgrym hefyd ynglŷn â gwybodaeth ychwanegol y dylid ei darparu ar adeg cofrestru. Rydym wedi ystyried y rhain ar y cyd â'r ymatebion i gwestiwn dau.</p> <p>Cyfeiriodd sawl ymateb at elfennau gweithredol (e.e. croesawu'r newid arfaethedig i system ar-lein, gofyn am gael gweld y ffurflenni cofrestru a gofyn am ragor o eglurder ynglŷn â rhai o'r termau a ddefnyddiwyd).</p>					
Ymateb Llywodraeth Cymru					
<p>Mae'n dda gan Lywodraeth Cymru weld bod ymatebwyr o'r farn bod y wybodaeth a'r ddogfennaeth arfaethedig fel y'u hamlinellir yn y rheoliadau drafft yn berthnasol ac yn gymesur.</p> <p>Bydd y datganiad o ddiben yn chwarae rhan bwysig drwy gydol y system rheoleiddio ac arolygu; fel y cyfryw, bydd angen i ddarparwyr sicrhau ei fod yn gyfredol fel mater o reol. Fel rhan o'r rheoliadau i'w gwneud o dan Adran 27 rydym yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ddarparu eu datganiad o ddiben os gofynnir iddynt wneud hynny. Credwn y bydd hyn yn sicrhau'r</p>					

canlyniad a ddymunir gan y rhai a hoffai weld datganiadau o ddiben yn cael eu cyhoeddi ond y bydd yn lleihau'r baich ar ddarparwyr i'r eithaf.

Byddwn yn cadw'r ceisiadau ynglŷn ag elfennau gweithredol mewn cof wrth ddatblygu'r systemau (e.e. wrth bennu gofynion TGCh) a fydd yn cefnogi'r gyfundrefn rheoleiddio ac arolygu newydd.

Rheoliadau ynghylch Ceisiadau i Gofrestru fel Darparwr Gwasanaeth

2. A oes unrhyw ofynion eraill y dylid eu hystyried? Os felly, beth ydyn nhw a pham?

Crynodeb

Fel y soniwyd uchod rhoddwyd sawl argymhelliad ar gyfer gofynion ychwanegol i ymgeiswyr sy'n dymuno cofrestru fel darparwr wrth ateb cwestiwn un a dau.

Awgrymodd sawl ymatebwr ofyniad i gynnwys gwybodaeth am fanylion safleoedd, er enghraifft addasiadau i'r adeilad i'w wneud yn fwy hygyrch. Roedd eraill hefyd yn galw am i fanylion ynglŷn â gofal gael eu cynnwys, er enghraifft sut y byddai darparwyr yn diwallu anghenion rhywun ynglŷn â rhywedd.

Awgrymodd un ymatebydd y dylid rhoi enwau blaenorol yr Unigolyn Cyfrifol.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai manylion am gymwysterau ymgeisydd ym maes rheoli/rheoli busnes a'i brofiad ohono gael eu hamlinellu mewn ceisiadau.

Galwyd hefyd am i fanylion ceisiadau a wrthodwyd yn flaenorol gael eu cynnwys.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd y rheoliadau sydd i'w gwneud o dan Adran 27 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr amlinellu manylion y gofal sy'n canolbwyntio ar unigolion y byddant yn ei gynnig. Byddai hyn yn cynnwys manylion am addasiadau a wnaed ganddynt er mwyn diwallu anghenion unigolion sy'n derbyn gofal, gan gwmpasu addasiadau ffisegol i'r cyfleusterau a sut y byddant yn rhoi gofal yn weithdrefnol. Ni chredwn fod angen cynnwys y manylion hyn hefyd pan fydd darpar ddarparwr yn gwneud cais.

Mae cynllun busnes eisoes yn ofynnol fel rhan o'r broses gwneud cais. Os nad yw AGGCC yn fodlon ar y cynllun busnes bydd yn gallu gofyn i'r ymgeisydd roi mwy o dystiolaeth ynglŷn â'i gymhwysedd busnes. Am y rheswm hwn ni chredwn y byddai cynnwys manylion profiad o reoli busnes neu gymwysterau ym maes rheoli busnes yn gwella'r rheoliadau a'r broses gwneud cais.

Byddwn yn diwygio'r rheoliadau i gynnwys manylion ceisiadau a wrthodwyd yn

flaenorol gan reoleiddwyr eraill yn y DU (e.e. y Comisiwn Ansawdd Gofal).

Rheoliadau ynghylch Datganiadau Blynyddol Darparwyr

3. Ydych chi'n cytuno bod y gofynion ar gyfer cynnwys datganiadau blynyddol darparwyr, fel a amlinellir yn y rheoliadau drafft, yn ddigonol i roi i'r cyhoedd yr wybodaeth sydd arnynt ei hangen i benderfynu pa wasanaethau sydd orau ar gyfer eu hanghenion ac i'w galluogi i gymharu darparwyr gwasanaethau â'i gilydd? Os nad ydynt, beth yw'r gofynion eraill?

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm	7	18	6	3	14

Crynodeb

O'r rhai a nododd farn, cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr â'r dull gweithredu arfaethedig. Roedd 74% o bobl yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r cynnig. Roedd 18% o'r ymatebwyr yn tueddu i anghytuno a dim ond 8% a anghytunodd.

Galwodd sawl ymatebydd am lle i'r darparwr gynnwys cyd-destun. Er bod ymatebwyr yn croesawu'r argymhelliad i gynnwys manylion y trefniadau ar gyfer ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau ynglŷn â gweithrediad y gwasanaeth teimlai rhai ymatebwyr y dylai fod lle hefyd i dystlythyrau neu ddatganiadau am y ddarpariaeth gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Cododd ymatebwyr yr angen hefyd i nodi staff nyrsio o dan benawdau gwahanol (h.y. nyrsys cofrestredig a staff gofal) o dan wybodaeth staffio.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Amcan polisi allweddol y datganiadau blynyddol yw eu bod yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i helpu pobl i wneud penderfyniad hyddysg. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn ofalus i sicrhau bod unrhyw faich ychwanegol ar ddarparwyr mor fach â phosibl. I'r perwyl hwn, mae angen i'r wybodaeth sydd i'w chynnwys fod yn syml, yn gymaradwy a dylai'r adroddiadau terfynol fod o hyd hydrin.

Rydym yn ystyried cadw'r mwyafrif o'r manylion yn y datganiad blynyddol yn ansoddol. Bydd hyn yn ei gwneud mor hawdd â phosibl i gymharu'r wybodaeth a ddarperir mewn datganiadau. Fodd bynnag, rydym yn cytuno y dylai fod lle i ddarparwyr gynnwys naratif a fydd yn esbonio eu hatebion ymhellach, lle y bo

hyn yn briodol. Nid oes angen cynnwys sylwadau darparwyr ar y wybodaeth yn y datganiad yn benodol yn y rheoliadau. Byddwn yn mynd i'r afael â hyn yn weithredol drwy ddyluniad y ffurflen.

Rydym yn cytuno bod safbwyntiau pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau'n hollbwysig. Caiff y rhain eu hadlewyrchu yn ansawdd yr adolygiad gofal, y bwriedir iddo fodloni'r gofyniad am ddatganiad ynglŷn â sut mae'r darparwr wedi cydymffurfio â gofynion y rheoliadau a wnaed o dan adran 27(1) sy'n nodi safon y gofal a'r cymorth, a gaiff ei hamlinellu ar gam dau'r broses weithredu. Er mwyn lleihau dyblygu ni fyddwn yn cynnwys y rhain fel gofyniad ar wahân yn yr adroddiad blynyddol hefyd.

Byddwn yn cynnwys nyrsys cofrestredig fel categori o staff o dan "gwybodaeth am staffio".

Rheoliadau ynghylch Datganiadau Blynyddol Darparwyr

4. Ydych chi'n cytuno â'r amserlen arfaethedig ar gyfer cyflwyno datganiad blynyddol (28 o ddiwrnodau wedi i'r flwyddyn ariannol ddod i ben)?

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm	12	7	8	4	17

Crynodeb

Roedd yr ymatebion a roddwyd yn rhoi barn amrywiol ar y terfyn amser. Dywedodd sawl ymatebydd eu bod yn cefnogi'r cynnig o 28 diwrnod; fodd bynnag roedd y rhan fwyaf o'r bobl a gefnogodd hyn yn cefnogi'r syniad o derfyn amser yn gyffredinol. Ni nododd yr un ymatebydd yn benodol ei fod o'r farn bod 28 diwrnod yn hollbwysig o ran gweithrediad datganiadau blynyddol darparwyr.

Teimlai sawl ymatebydd arall y byddai'n anodd cydymffurfio â therfyn amser o 28 diwrnod, yn enwedig am y gallai'r gofyniad i gwblhau datganiad gyd-daro â thasgau diwedd blwyddyn eraill ac felly greu pwysau ychwanegol. Gallai pwysau o'r fath effeithio ar ddarparwyr llai o faint yn arbennig.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Ar ôl ystyried yr ymatebion mae Llywodraeth Cymru yn ystyried estyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno datganiad blynyddol i 56 diwrnod ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd hyn yn atal darparwyr bach rhag bod o dan ormod o bwysau ac yn cyflawni ein hamcan o sicrhau bod y rheoliadau'n gymesur.

Rheoliadau ynghylch Datganiadau Blynyddol Darparwyr

5. A oes unrhyw ofynion sy'n ddiangen? Os felly, pa rai a pham?

Crynodeb

Dywedodd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr nad oedd unrhyw ofynion yn ddiangen, yn eu barn hwy. Codwyd rhai meysydd bach lle roedd unigolion yn teimlo bod gofynion yn ddiangen. Roeddent yn cynnwys gwybodaeth am staff domestig a gwybodaeth am drosiant staff gan y gallai fod llawer o resymau dros drosiant uchel a gallai hyn roi argraff wael o sefydliad os na roddwyd unrhyw gyd-destun, a gwybodaeth ariannol gan y gallai hyn fod yn sensitif.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gefnogaeth i'r gofynion yn y datganiad blynyddol i ddarparwyr.

Credwn fod y wybodaeth am staff domestig yn berthnasol. Er nad ydynt yn rhoi gofal uniongyrchol, mae staff domestig yn chwarae rhan bwysig sy'n ymwneud ag ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.

Byddwn yn cynnwys y cyfle i ddarparwyr roi cyd-destun, lle y bo'n briodol. Bydd hyn yn gyfle i ddarparwyr roi esboniad os oes ganddynt gyfradd trosiant staff uchel iawn.

Deallwn fod gwybodaeth ariannol yn sensitif. Cyfyngwyd y wybodaeth i'w chynnwys yn yr adroddiad i raddfa o daliadau. Teimlwn fod hyn yn cynnig cydbwysedd priodol rhwng rhoi gwybodaeth berthnasol i'r cyhoedd ond ar yr un pryd ddiogelu gwybodaeth fasnachol-sensitif.

Nid ydym yn bwriadu dileu unrhyw rai o'r gofynion ar y datganiad blynyddol i ddarparwyr.

Rheoliadau ynghylch Cais i Amrywio Cofrestrriad fel Darparwr Gwasanaeth

6. Ydych chi'n cytuno bod y gofynion o ran gwybodaeth a dogfennaeth fel y'u hamlinellir yn y rheoliadau drafft yn berthnasol ac yn gymesur? Os nad ydych, pam?

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm	13	21	0	0	14

Crynodeb

Roedd y gefnogaeth i'r cynigion hyn yn gryf iawn gyda 100% o ymatebwyr a nododd farn, yn cytuno neu'n tueddu i gytuno. Roedd y sylwadau'n adlewyrchu hyn gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebion yn dweud eu bod yn teimlo bod y gofynion yn berthnasol ac yn gymesur.

Galwodd rhai am i effaith amrywio ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth gael ei hystyried. Galwodd rhai hefyd am i hysbysiadau o amrywio gael eu rhoi i gynrychiolwyr a gofalwyr defnyddwyr gwasanaethau yn ogystal â'r defnyddwyr.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Os oes gwasanaeth yn ehangu yna bydd yn ofynnol i ddarparwyr barhau i fodloni'r gofynion a osodwyd arnynt yn y rheoliadau o dan adran 27 (i'w datblygu fel rhan o gam dau), i bobl sydd eisoes yn defnyddio'r gwasanaethau gofal a chymorth. Os yw'r gwasanaeth yn cau, y goblygiad yw nad yw'r gwasanaeth yn hyfyw mwyach a blaenoriaethau AGGCC fydd sicrhau bod y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael gofal o ansawdd da yn ystod o broses o bontio i ddarparwr newydd. Am y rhesymau hyn ni theimlwn fod angen cynnwys unrhyw ddatganiadau ynglŷn â'r effaith ar bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau fel rhan o gais i amrywio cofrestriad.

O ran manylion y rhybudd a roddir, mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr hysbysu AGGCC o'r hysbysiadau y mae wedi'u rhoi i'r rhai yr effeithir arnynt o bosibl. Mae'r rhestr yn cynnwys 'unrhyw berson arall' - rhagwelwn y bydd hyn yn cynnwys gofalwyr a chynrychiolwyr pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Gan fod y mwyafrif o'r ymatebion yn cefnogi'r rheoliad a gynigwyd ac y gellir mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r sylwadau a godwyd drwy ganllawiau a gweithdrefnau gweithredol ni fwriadwn newid y rheoliadau ynghylch amrywio cofrestriad.

Rheoliadau ynghylch Cais i Amrywio Cofrestriad fel Darparwr Gwasanaeth

7. A oes unrhyw ofynion eraill y dylid eu hystyried? Os felly, beth ydyn nhw a pham?

Crynodeb

O'r ymatebwyr a gododd faterion, fel uchod, roedd cynnwys datganiad neu adroddiad ar effaith yr amrywiad ar ddefnyddwyr gwasanaethau yn brif thema unwaith eto.

Awgrymodd rhai ymatebwyr newidiadau ynglŷn â chofnodi newidiadau i Unigolion Cyfrifol. Er enghraifft, pan fydd Unigolyn Cyfrifol yn newid dylai'r rheswm dros y newid hwn gael ei gynnwys gan y gall hyn dynnu sylw AGGCC at broblemau sylfaenol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Ceir ymateb ynglŷn ag effeithiau amrywio ar bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth uchod o dan Gwestiwn 6.

Bydd AGGCC yn gallu nodi os yw darparwr yn gwneud ceisiadau mynych i amrywio ei gofrestriad am fod yr Unigolyn Cyfrifol yn newid. Os felly, byddai'n ymchwilio er mwyn gweld a oedd hyn yn symptomatig o broblemau gyda'r darparwr. Ni theimlwn y byddai cynnwys y rheswm pam bod Unigolyn Cyfrifol yn gadael yn helpu AGGCC i wneud penderfyniad ynglŷn â chaniatáu'r cais i amrywio.

Fel y nodwyd uchod, roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cefnogi'r rheoliad a gynigwyd ac y gellir mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r sylwadau a godwyd drwy ganllawiau a gweithdrefnau gweithredol. Felly ni fwriadwn newid y rheoliadau ynghylch amrywio cofrestriad.

Rheoliadau ynghylch Cais i Amrywio Cofrestriad fel Darparwr Gwasanaeth

8. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig ar gyfer y terfyn amser y mae'n ofynnol gwneud cais i amrywio cofrestriad yn unol ag ef pan nad oes unrhyw unigolyn cyfrifol?

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm	16	12	2	1	17

Crynodeb

Unwaith eto, roedd y gefnogaeth i'r terfyn amser arfaethedig o 28 diwrnod yn gryf. Dywedodd 90% o'r rhai a nododd farn eu bod yn cytuno â'r cynigion.

Roedd hyn hefyd wedi'i adlewyrchu yn nhestun yr ymatebion. Nododd tua dwywaith yn fwy o ymatebwyr eu bod yn cytuno â'r terfyn amser na'r rhai a anghytunodd. Dywedodd nifer fach o'r ymatebwyr fod y terfyn amser yn rhy fyr - gan godi pryderon ynglŷn â recriwtio. Fodd bynnag, teimlai nifer debyg o ymatebwyr ei bod yn hanfodol na châi'r terfyn amser ei estyn oherwydd rôl diogelu hollbwysig yr Unigolyn Cyfrifol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Fel y nodwyd mewn rhai ymatebion, bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn chwarae rhan hollbwysig i sicrhau ansawdd gwasanaethau a diogelu pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn disgwyl i rôl Unigolyn Cyfrifol fod yn rhan o rôl arall rhywun, ac nid ei swydd gyfan. I'r perwyl hwn, gallai uwch aelod arall o staff y sefydliad ymgymryd â'r rôl ar fyr rybudd os oes

angen.

Rheoliadau ynghylch hysbysu awdurdodau lleol

9. Ydych chi'n cytuno bod y rhestr o ddigwyddiadau hysbysadwy yn y Ddeddf yn gynhwysfawr? Os nad ydych, pa ddigwyddiadau hysbysadwy eraill yr hoffech chi eu gweld yn cael eu cynnwys?

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm	16	14	1	0	17

Crynodeb

Fel y dangosir uchod bu cefnogaeth gyffredinol i'r rhestr arfaethedig o gamau y bydd awdurdodau lleol yn cael eu hysbysu yn eu cylch. Dim ond un ymatebydd a nododd duedd i anghytuno â'r cynnig. Cynigiwyd nifer fach o gamau ychwanegol - yn bennaf o ran camau a gymerwyd ar ôl digwyddiadau. Soniodd yr ymatebion hefyd nad yw'r hysbysiadau hyn yn cael eu hanfon i fyrddau iechyd lleol sydd hefyd yn gomisiynwyr gwasanaethau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Caiff yr hysbysiadau hyn eu hanfon i bob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr. Am y rheswm hwn, mae'n hollbwysig ein bod yn sicrhau bod y rhestr o gamau sy'n ysgogi hysbysiad parhau i fod ar lefel uchel iawn. Rydym wedi cynnwys apeliadau gan ddarparwyr neu unigolion a chanlyniad yr apeliadau hynny. Pan fo achos llys wedi cael ei ddwyn yn erbyn unigolyn rydym hefyd wedi cynnwys manylion penderfyniadau'r llys, apeliadau a thynnu achos yn ôl. Teimlwn fod y rhain yn rhoi darlun llawn i'r awdurdodau lleol o ran y camau sy'n cael eu cymryd tra'n sicrhau bod nifer yr hysbysiadau yn cael ei gyfyngu i nifer hydryn.

Nid yw o fewn cwmpas y rheoliadau hyn i ehangu'r rhestr o sefydliadau y bydd angen i AGGCC eu hysbysu. Fodd bynnag, yn weithredol, byddai'n bosibl cynnwys byrddau iechyd sy'n comisiynu yn y system hysbysu. Byddwn yn trafod y mater hwn ymhellach ag AGGCC.

Rheoliadau ynghylch hysbysu awdurdodau lleol

10. Ydych chi'n cytuno bod y rheoliadau drafft yn cyflwyno system hysbysu a fydd yn rhoi'r wybodaeth fydd ei hangen arnynt i awdurdodau lleol? Os nad ydych chi, pa wybodaeth yr hoffech chi ei gweld yn cael ei hepgor o'r adroddiad neu ba wybodaeth arall ydych chi o'r farn y byddai'n werthfawr ei chynnwys?

	Cytuno	Tueddu i	Tueddu i	Anghytuno	Dim tic
--	--------	----------	----------	-----------	---------

		gytuno	anghytuno	o	
Cyfanswm	12	18	1	0	17

Crynodeb

Unwaith eto, roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr yn cefnogi'r rheoliadau arfaethedig; dim ond un ymatebydd a ddewisodd "tueddu i anghytuno". Soniodd nifer fach iawn o ymatebwyr am feysydd ychwanegol y dylai awdurdodau lleol gael eu hysbysu yn eu cylch, yn eu barn hwy, er enghraifft lefelau uchel o farwolaethau heb esboniad. Fel yn achos y cwestiynau eraill rhoddodd ymatebwyr adborth gweithredol hefyd, megis yr angen i anfon hysbysiadau'n brydlon.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Fel y soniwyd uchod, anfonir yr hysbysiadau hyn i bob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr; felly, yn weithredol, mae'n bwysig sicrhau bod y camau sy'n ysgogi hysbysiadau yn parhau i fod ar lefel uchel. Mae methiannau difrifol gan ddarparwr eisoes yn debygol o ysgogi un o'r camau a restrir o dan adran 39 o'r Ddeddf.

Fel yn achos adborth gweithredol arall a gyflwynwyd byddwn yn trafod y materion hyn ag AGGCC.

Ni fwriadwn newid y Rheoliadau Gwasanaethau a Reoleiddir (Hysbysiadau) (Cymru) o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn.

Rheoliadau'r Gweithlu

Rheoliadau ynghylch ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol"

11. Ydych chi'n cytuno gyda'r diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol sy'n cael ei gynnig?

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm	12	11	4	2	19

Crynodeb

Er gwaetha'r gefnogaeth gyffredinol i'r cynigion a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad, teimlai llawer ei bod yn bryd sicrhau bod y diffiniad yn adlewyrchu syniadaeth gyfredol yn y sector yn well, a bod yn fwy penodol i helpu'r cyhoedd i ddeall y rolau y mae'r gweithwyr hyn yn eu chwarae.

Roedd y dadleuon o blaid diffinio'r gweithlu'n well yn cynnwys, gan fod termau mwy galluogol yn cael eu defnyddio na'r disgrifyddion arferol "gofal" a "cymorth", y dylai hyn hefyd gael ei ymgorffori yn y rheoliadau. Rhoddwyd sawl rheswm dros hyn, gan amrywio o gydnabod y rolau y mae'r grŵp hwn yn ymgymryd â hwy i'r ffaith y byddai'n helpu i gael gwared ar y stigma sy'n gysylltiedig â'r rôl. O ran eglurder i'r cyhoedd, teimlai rhai ymatebwyr fod y ddwy label (h.y. gweithwyr gofal cymdeithasol neu weithwyr cymdeithasol) yn ddryslyd ac nad oedd y cyhoedd yn gwahaniaethu rhyngddynt. Teimlwyd y byddai diffinio'r rolau'n well yn ôl y gwaith penodol a wnânt yn helpu pobl i ddeall natur amrywiol y gwaith a wneir gan y gweithlu.

Teimlai sawl ymatebydd, er ei fod/bod yn cytuno â'r diffiniad, y byddai'n ddoeth ei adolygu'n ddiweddarach er mwyn sicrhau ei fod yn cwmparu'r grwpiau cywir ac nad oedd i ddiffiniad eang o'r fath unrhyw oblygiadau anfwriadol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddefnyddio'r termau gweithiwr cymdeithasol a gweithiwr gofal cymdeithasol gan eu bod wedi cael eu defnyddio'n eang ers Deddf Safonau Gofal 2000, ac maent wedi hen sefydlu ac yn cael eu deall gan y sector a'r cyhoedd ar y cyfan. Ni chytunwn fod y derminoleg yn drysu'r cyhoedd nac ychwaith y byddai newid y diffiniadau yn helpu'r cyhoedd i ddeall y rolau y mae'r gweithwyr hyn yn eu chwarae wrth roi gofal a chymorth. Byddai eu newid er mwyn nodi'r rolau y maent yn eu chwarae ond yn achosi dryswch a byddai'n fwy costus yn yr hirdymor oherwydd, gan fod y sector yn newid mor gyflym, byddai angen diweddarau'r ddeddfwriaeth drwy'r amser er mwyn sicrhau bod y teitlau'n adlewyrchu'r syniadaeth gyfredol a'r gwaith y maent yn ei wneud.

Teimlwn hefyd, gan y gall natur y gwaith ddatblygu i gwmpasu agweddau eraill ar ofal a chymorth, nid dim ond darparu gwasanaethau penodol, mai un o oblygiadau anfwriadol nodi'r tasgau y mae gweithwyr yn eu cyflawni fyddai y gallent gael eu dehongli fel yr unig dasgau y gall gweithwyr eu cyflawni. Wrth inni symud tuag at ddull o roi gofal a chymorth sy'n canolbwyntio mwy ar unigolion, bydd angen hyblygrwydd o ran y diffiniadau er mwyn ei gwneud yn bosibl i weithwyr addasu eu rolau a'u tasgau er mwyn diwallu anghenion y rhai sy'n derbyn gofal a chymorth yn y ffordd orau bosib.

Rheoliadau ynghylch ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol"

12. Ydych chi'n cefnogi'r holl bersonau y'u rhestrir yn y ddogfen ymgynghori fel rhai sy'n cael eu hystyried yn weithwyr gofal cymdeithasol? Os nad ydych, pam?

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm	15	11	4	3	15

Crynodeb

Cafodd y cynigion a amlinellwyd yn y rheoliad eu croesawu gan y mwyafrif o'r ymatebwyr. Cydnabu rhai ymatebion fod y diffiniad yn eang yn fwriadol er mwyn diogelu'r ddeddfwriaeth rhag y dyfodol a chaniatáu ychwanegu categorïau eraill o weithwyr yn ddiweddarach ond codwyd amheuan a fyddai hyn yn cael ei estyn i gynnwys rolau megis glanhawyr a chogyddion mewn cartrefi gofal preswyl. Galwodd un ymatebydd am i gyfnod adolygu gael ei gynnwys er mwyn sicrhau bod y diffiniad yn parhau i fod yn gyfredol ac i gynnwys yr holl grwpiau cywir neu o leiaf am gael mwy o ymgynghori pan gynigir ychwanegu categorïau eraill o weithwyr o fewn y diffiniad.

Mewn gwrthgyferbyniad â'r rhai a gytunodd â'r diffiniad, galwodd nifer o ymatebwyr am fwy o eglurder ac am i'r diffiniad fod yn fwy penodol ac amlinellu'r rolau y mae unigolion yn eu cyflawni o fewn y priod broffesiynau. Teimlai un ymatebydd fod angen i'r diffiniad egluro mai dim ond y rhai a oedd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Gofal (neu Gofal Cymdeithasol Cymru) oedd y gweithwyr gofal cymdeithasol, er mwyn adlewyrchu'n well bod rhai gweithwyr wedi'u cofrestru â chyrrff rheoleiddio eraill. Galwodd pedwar ymatebydd am i gynorthwywyr personol a gyflogir gan y rhai sy'n cael taliadau uniongyrchol gael eu cynnwys o fewn y diffiniad. Gofynnodd sawl ymatebydd am eglurder ynglŷn â lefel y cymwysterau y byddai ei hangen ar gyfer pob rôl er mwyn cofrestru o dan y diffiniad newydd, yn enwedig gan nad oedd rhai cymwysterau yn drosglwyddadwy y tu allan i Gymru. Nododd rhai ymatebwyr y gallai fod goblygiadau anfwriadol i'r gofyniad i gofrestru i asiantaethau sy'n gweithio dros y ffin.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi gadael y diffiniadau o weithiwr cymdeithasol a gweithiwr gofal cymdeithasol yn eang yn fwiadol er mwyn ei gwneud yn bosibl i ddiogelu'r ddeddfwriaeth rhag newidiadau yn y dyfodol, fel y nododd rhai o'r ymatebwyr yn gywir, a chaniatáu ychwanegu categorïau eraill o weithiwr yn ôl yr angen. Fodd bynnag, drwy gadw'r diffiniadau fel y maent, teimlwn ei bod yn rhoi cyfle i bobl ymaddasu at y cyfnod pontio o Ddeddf Safonau Gofal 2000 i'r fframwaith deddfwriaethol newydd o dan Ddeddf 2016. Fel y nodwyd o'r blaen, mae'r disgrifyddion hyn wedi cael eu defnyddio ers 16 mlynedd ac maent wedi hen sefydlu ac yn cael eu deall gan y sector a'r cyhoedd ar y cyfan a theimlir, pe bai'r diffiniadau'n cael eu newid yn awr, y bydd hyn yn peri dryswch i'r sector a defnyddwyr gwasanaethau.

Er ein bod yn derbyn bod y rolau wedi newid yn sylweddol yn ystod y degawd diwethaf neu dros gyfnod hwy, teimlwn y byddai canolbwyntio'n benodol ar y gwasanaethau neu'r tasgau penodol a ddarperir neu a gyflawnir yn arwain at oblygiad anfwriadol i weithwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Pe baem yn nodi'r tasgau y mae gweithwyr yn eu cyflawni, teimlwn y gallai hyn gael ei ddehongli fel yr unig dasgau y gall y gweithwyr hynny eu cyflawni. Credwn y byddai hyn yn cyfyngu ar yr hyblygrwydd y gall y grwpiau hynny ei gynnig i'w cleientiaid a gallai hefyd ddrysu defnyddwyr gwasanaethau, a allai feddwl mai dim ond y gwasanaethau hynny y gallant eu cael gan y gweithwyr hynny. Felly gallai hyn beri pryder yn anfwriadol wrth i ddefnyddwyr o'r fath gredu'n anghywir fod angen iddynt gyflogi darparwyr eraill neu geisio gwasanaethau eraill gan ddarparwyr eraill. Wrth inni symud tuag at ddull o roi gofal a chymorth sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn, bydd angen inni sicrhau bod digon o hyblygrwydd o ran y diffiniadau er mwyn ei gwneud yn bosibl i weithwyr addasu eu rolau a'u tasgau er mwyn diwallu anghenion y rhai sy'n derbyn gofal a chymorth yn y ffordd orau bosibl.

Rheoliadau ynghylch ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol"

13. Ydych chi'n meddwl y dylem eithrio disgrifiadau o bersonau penodol? Os felly, pwy a pham?

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm	3	10	3	9	23

Crynodeb

O'r rhai a nododd farn roedd yr ymatebion wedi'u rhannu bron yn gyfartal ynglŷn â'r cynnig y dylai unigolion penodol gael eu heithrio rhag y broses o reoleiddio'r gweithlu, oherwydd cydnabuwyd bod llawer o ffrindiau a theulu yn ofalwyr ac felly byddai eu cynnwys o dan y gyfundrefn rheoleiddio'r gweithlu yn faich annheg arnynt. Fodd bynnag, hyd yn oed ymhlith y rhai a gytunodd y dylai

rhai categorïau fod wedi'u heithrio, roedd awydd penodol am gael mwy o ymgysylltu a thrafodaeth ynglŷn â chynnwys cynorthwywyr personol a gyflogir drwy daliadau uniongyrchol o fewn y diffiniad o weithwyr gofal cymdeithasol, gan eu bod yn teimlo bod angen amlwg i'w cynnwys yng nghyfundrefn reoleiddio Gofal Cymdeithasol.

Hefyd, teimlai rhai ymatebwyr yn gryf na ddylai fod unrhyw eithriadau a bod hyn yn gyfle i sicrhau cydnabyddiaeth o'r gweithlu a bwrw ymlaen â'r broses tuag at weithlu cwbl broffesiynol a reoleiddir. Teimlai yn ymatebydd na ddylai fod unrhyw eithriadau ar gyfer categorïau penodol o'r gweithlu gan y gallai olygu bod plant ac oedolion sy'n agored i niwed hyd yn oed yn fwy agored.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ffaith bod llawer o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig y dylai fod eithriadau i reoliadau'r gweithlu, gan nad ydym am gynnwys pob aelod o'r teulu, ffrind a gofalwr yn y gyfundrefn reoleiddio, gan y byddai hyn nid yn unig yn gosod baich diangen arnynt ond y gallai amharu ar y gofal a'r cymorth hollbwysig y mae'r grwpiau hyn yn eu rhoi i aelodau o'r teulu a ffrindiau sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, drwy'r rheoliadau, mae cynorthwywyr personol wedi'u cynnwys yn y diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol er mwyn eu cynnwys o dan drefniadau cymorth a datblygu Gofal Cymdeithasol Cymru.

Nodwn fod llawer o'r ymatebwyr wedi drysu rhwng diben adran 79 a diben adran 80, gan ddod i'r casgliad bod y rheoliadau o dan adran 79 yn cynnwys gweithwyr o dan y gyfundrefn rheoleiddio'r gweithlu. Fodd bynnag, mae rheoliadau adran 79 yn cynnwys gweithwyr o dan gwmpas cyffredinol Gofal Cymdeithasol Cymru a'i swyddogaethau ynglŷn â datblygu'r gweithlu, ac mae'r rheoliadau o dan adran 80 yn cynnwys disgrifiadau o weithwyr o dan reoliadau'r gweithlu, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gofal Cymdeithasol Cymru gadw cofrestr ohonynt.

Rheoliadau ynghylch ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol"

14. Oes unrhyw risgiau ynghlwm wrth barhau â dull eang a chynhwysol – er enghraifft, oes yna unrhyw grwpiau y gallai fod yn anghymesur disgwyl iddynt fodloni gofynion y Cod Ymarfer? Oes yna risg y gallai gwaith Gofal Cymdeithasol Cymru gael ei wanhau drwy barhau â dull eang, fel na fydd yn canolbwyntio digon ar y rheini sydd wrth galon y sector?

Crynodeb

Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn eu bod yn teimlo na fyddai risg yn gysylltiedig â dull gweithredu cynhwysol a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i grwpiau penodol o weithwyr fodloni gofynion Cod Ymarfer. Teimlai rhai y byddai'r dull gweithredu cynhwysol hwn yn helpu i sicrhau bod safonau

cyson a mesurau diogelu i bawb sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, er bod rhai yn teimlo bod angen i bob grŵp fod yn ymwybodol o'r dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar unigolion a ymgorfforwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a hefyd yn Neddf 2016, rhybuddiodd rhai fod angen ystyriaeth ofalus o'r safonau, mesurau cywir ac ati.

Roedd hyn mewn gwrthgyferbyniad â rhai ymatebwyr a deimlai fod rhywfaint o risg yn gysylltiedig â dull gweithredu cynhwysol oni bai bod gan bob grŵp ei god ymarfer ei hun. Pe câi un cyffredinol ei osod ar wasanaeth megis gwasanaethau eirioli a ddarperir gan wirfoddolwyr, dadleuwyd y gallai gael effaith negyddol ar yr agwedd hon ar y sector. Unwaith eto, dadleuodd rhai ymatebwyr hefyd y byddai'n creu amwysedd i'r cyhoedd, na fyddent yn gallu gwahaniaethu rhwng gweithwyr cymdeithasol a disgrifiadau eraill o weithwyr gofal cymdeithasol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai bodolaeth cod ymarfer "cyffredinol" i'r gweithlu gofal cymdeithasol yn cael effaith andwyol ar unrhyw agwedd ar y gweithlu, gan fod profiad cadarnhaol o'r arfer hwn eisoes yng Nghymru. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod unigolion wrth wraidd gofal cymdeithasol a chymorth, felly mae'n hollol briodol bod y rhai sy'n darparu'r gwasanaethau hyn hefyd yn canolbwyntio ar anghenion unigolion. Dylem ymdrechu i ddarparu'r gwasanaethau gofal a chymorth gorau y gallwn i bobl Cymru ac mae un cod ymarfer yn un ffordd o sicrhau bod pawb yn cadw at set benodol o egwyddorion wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny.

Mae Llywodraeth Cymru yn teimlo y bydd un cod ymarfer yn rhoi fframwaith clir i'r sector sy'n amlinellu'r safonau uchaf y dylai pob gweithiwr gofal cymdeithasol anelu atynt. Byddwn yn gweithio gyda'r sector i ddatblygu'r cod hwn er mwyn sicrhau ein bod yn rhannu arfer gorau a syniadau i warantu bod barn gynhwysol o'r hyn y dylai'r safonau uchaf ei gynnwys.

Rheoliadau ynghylch y Gofrestr

15. Ydych chi'n ystyried bod y dull presennol ar gyfer cofrestru gweithwyr cymdeithasol yn gweithio'n dda? Oes unrhyw faterion wedi codi?

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm	13	10	2	0	23

Crynodeb

Ymhlith y rhai a nododd farn roedd y mwyafrif llethol yn cytuno bod y dull

cofrestru presennol yn gweithio'n dda, gyda'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo nad oes fawr ddim angen gwneud unrhyw newidiadau sylweddol iddo. Fodd bynnag, nododd rhai ymatebwyr ei fod yn achosi rhai anawsterau ac oedi yn ystod y broses ailgofrestru neu wrth ddiweddarau'r gofrestr, a barodd i un ymatebydd amlinellu'r system a ddefnyddir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth fel un a oedd yn cynnig profiad mwy hwylus, a allai fod yn rhywbeth i'w efelychu o dan y gyfundrefn newydd.

Nododd rhai ymatebwyr fod angen amlwg am gael gwared ar y cofrestrau gwirfoddol a oedd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd a'i gwneud yn ofynnol i bob grŵp sy'n gweithio o fewn gwasanaethau a reoleiddir ymgofrestru. Fodd bynnag, cydnabu ymatebion fod angen dod â'r cynllun gwirfoddol i ben mewn ffordd gydgyssylltiedig er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n cofrestru a'u cyflogwyr yn deall sut mae hyn yn digwydd. Cododd ymatebydd arall bryderon fod meysydd o hyd lle roedd angen cofrestru deuol â mwy nag un rheoleiddiwr, a oedd â goblygiadau ac a oedd yn ddryslyd i weithwyr. Teimlai un ymatebydd ei bod yn amser da symud oddi wrth system a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai a oedd yn cofrestru feddu ar gymwysterau penodol a mabwysiadu system a oedd yn cynnig mwy o hyblygrwydd i gydnabod cymwysterau neu gymwyseddau proffesiynol trosglwyddadwy.

Codwyd rhai pryderon hefyd ynglŷn â'r costau uwch o bosibl i gofrestru pob gweithiwr gofal cymdeithasol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r farn a rennir gan nifer o ymatebwyr y dylai'r holl weithlu gael ei reoleiddio. Fodd bynnag, rydym am ystyried gam wrth gam sut y dylid ymestyn trefniadau rheoleiddio fel y bydd gweithwyr yn parhau i fod yn broffesiynol, yn gymwysedig ac yn ymroddedig i roi gofal o ansawdd da i'r rhai yn ein cymdeithas y mae angen gofal a chymorth arnynt. Rydym yn cydnabod y bydd angen gwneud hyn mewn modd cymesur a chytbwys sy'n cynnwys pob agwedd ar y sector er mwyn ein helpu i benderfynu ar y ffordd orau ymlaen.

Er bod Llywodraeth Cymru yn deall y materion a godwyd gan yr ymatebwyr, mae'r system newydd wedi'i haddasu i adlewyrchu'r model a argymhellwyd gan Gomisiwn y Gyfraith a bydd yn adeiladu'n llwyddiannus ar hanes rheoleiddio'r gweithlu a weithredwyd o dan y Ddeddf Safonau Gofal. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nad yw'r cofrestrau gwirfoddol yn cynnig y mesurau diogelu angenrheidiol, felly rydym yn dileu'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod y gallai'r broses gofrestru, ar gyfer rhai agweddau ar y gweithlu, fod yn gostus, a dyna pam rydym yn cynnig ffordd gymesur a graddol o gofrestru a rheoleiddio'r gweithlu. Erys rhai rhannau o'r gweithlu o hyd sydd wedi cael cyflog bach yn draddodiadol ac felly byddai'n afrealistig ac yn annheg gwneud newidiadau ar unwaith heb ymgymryd â gwaith ymchwilio pellach yn gyntaf er mwyn deall y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chofrestru'r grwpiau hyn. Dyna pam rydym wedi dechrau ar broses raddol yn hyn o beth, a byddwn yn gweithio gyda'r sector a Chyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru ymhen amser) i ystyried a chanfod

beth fydd yr effeithiau hyn.

Rheoliadau ynghylch y Gofrestr

16. A oes unrhyw beth ynglŷn â'r rheoliadau arfaethedig ynghylch y gofrestr nad yw'n fuddiol neu sy'n achosi problemau mewn unrhyw ffordd?

Crynodeb

Nododd llawer o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo bod y rheoliadau arfaethedig yn amwys o ran pa wybodaeth a gaiff ei chasglu yn y dyfodol a sut a phryd y câi ei chyhoeddi. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr fod angen bod yn ofalus o ran y wybodaeth i'w chyhoeddi a mynegwyd pryderon y gallai fod goblygiadau anfwriadol i weithwyr pe bai gormod o wybodaeth yn cael ei chyhoeddi (h.y. pe baent yn destun ymchwiliad a bod hyn wedi'i gofnodi ar y system cyn penderfyniad neu pe bai rhywun yn "enwi ac yn cywilyddio" rhywun yn faleisus ar y gofrestr, a allai effeithio ar ei gyflogadwyedd/chyflogadwyedd, ac ati).

Dadleuodd un ymatebydd y dylai ddarparu gwell gwybodaeth am weithwyr sy'n symud o le i le yn y system er mwyn cuddio unrhyw ymchwiliadau neu gamau disgyblu drwy weithio mewn ardal arall.

Galwodd sawl un am i'r maes hwn gael ei adolygu ar ôl cyfnod er mwyn sicrhau nad oes unrhyw oblygiadau anfwriadol i'r gweithlu, yn enwedig o ran ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd a gweithwyr yr UE ar ôl i hyn gael ei weithredu.

Cododd un ymatebydd y cwestiwn a fyddai'r gofrestr yn cynnwys modd i gyflogwyr geisio gwybodaeth drwy'r gofrestr er mwyn cael gwybodaeth fanylach am hanes cyflogaeth gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol cofrestredig er mwyn eu helpu i benderfynu a oedd yn rhywun roeddent am ei gyflogi/chyflogi.

Cododd un ymatebydd fater hygyrchedd y gofrestr i'r rhai nad oeddent yn gallu ei darllen "ar-lein" (e.e. pobl oedrannus, y rhai â nam ar y golwg, y rhai ag anawsterau dysgu, ac ati), a holodd a ddylai'r rheoleiddiwr gyhoeddi'r wybodaeth hon drwy gyfryngau eraill hefyd. Dadleuodd yr ymatebydd hefyd ei fod yn teimlo nad oedd yn briodol bod yr unigolyn yn gorfod ysgrifennu at y rheoleiddiwr i gael y wybodaeth hon.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn deall y pryderon a godwyd gan ymatebwyr ynglŷn â chyhoeddi'r wybodaeth ar y gofrestr. Mae'r broses gofrestru bresennol eisoes yn casglu gwybodaeth a gyhoeddir ar y gofrestr ac ni fwriadwn newid cwrpas y wybodaeth yn sylweddol.

Rydym yn cydnabod bod rhywfaint o bryder ynglŷn â'r terfynau amser ar gyfer

diweddarau'r wybodaeth ar y gofrestr ac mae hyn yn rhywbeth y bydd y rheoleiddiwr yn ei ystyried. Byddwn hefyd yn ystyried sut y bydd cyflogwyr yn gallu ceisio gwybodaeth fanylach a ddelir am ddarpar gyflogeion fel bod ganddynt wybodaeth gywir a pherthnasol er mwyn ystyried materion cyflogaeth. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol mewn ymateb i bryderon cynharach ynglŷn â lefel y wybodaeth i'w chyhoeddi, teimlwn y bydd y rheoliadau, fel y'u drafftwyd, yn sicrhau'r cydbwysedd gywir o ran lefel y wybodaeth a gaiff ei hychwanegu at y gofrestr yn y dyfodol.

Mewn perthynas â'r pryderon ynglŷn â chyhoeddi penderfyniadau ynglŷn ag addasrwydd i ymarfer, credwn fod cydbwysedd rhwng yr angen i ddiogelu'r cyhoedd a pharchu hawliau'r rhai sydd wedi'u cofrestru. Caiff y gofrestr ei rheoli gan Gofal Cymdeithasol Cymru a fydd yn rhoi mesurau cadarn ar waith ynglŷn â chyhoeddi gwybodaeth.

Fel yn achos yr ymateb i gwestiwn 15, mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r farn a rennir gan nifer o ymatebwyr y dylai'r holl weithlu gael ei reoleiddio ac rydym yn ystyried, gam wrth gam, sut y dylid ymestyn trefniadau rheoleiddio fel y bydd gweithwyr yn parhau i fod yn broffesiynol, yn gymwysedig ac yn ymroddedig i roi gofal o ansawdd da i'r rhai yn ein cymdeithas y mae angen gofal a chymorth arnynt. Rydym yn cydnabod y bydd angen gwneud hyn mewn modd cymesur a chytbwys sy'n cynnwys pob agwedd ar y sector er mwyn ein helpu i benderfynu ar y ffordd orau ymlaen.

Rheoliadau ynghylch cynnwys y Gofrestr

17. Ydych chi'n cytuno bod y rheoliadau sy'n berthnasol i gymwysterau yn gofyn am gynnwys yr ystod gywir o wybodaeth ar y gofrestr?

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm	14	14	2	1	17

Crynodeb

Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn fod y rheoliadau sy'n berthnasol i gymwysterau yn gofyn am gynnwys y wybodaeth gywir ar y gofrestr a bod y rheoliadau fel y'u drafftwyd yn gymesur ac yn berthnasol. Cydnabuwyd, er bod cymwysterau yn ychwanegu at statws proffesiynol gweithwyr, fod rhaid wrth gydbwysedd rhwng sgiliau academiaidd, er mwyn rhoi hyder i'r cyhoedd yn y gweithlu, a sicrhau nad ydym yn colli golwg ar y dasg o ddiogelu defnyddwyr gwasanaethau sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, galwodd rhai am fod yn ofalus ynglŷn â chydbwysedd a lefel y wybodaeth a fyddai ar gael ar y gofrestr i'r cyhoedd.

Galwyd hefyd am ystyried rhoi nodyn ar y gofrestr lle roedd yr unigolyn a oedd wedi'i gofrestru hefyd yn cael ei reoleiddio gan gorff arall (h.y. y Cyngor

Proffesiynau Iechyd a Gofal neu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth) fel y byddai Gofal Cymdeithasol Cymru yn gwybod bod angen trosglwyddo'r manylion er mwyn i'r rheoleiddiwr perthnasol ymateb pe bai unrhyw faterion ynglŷn ag addasrwydd i ymarfer yn codi.

Teimlai rhai ymatebwyr, er eu bod yn cytuno y dylid cynnwys cymwysterau ar y gofrestr, fod angen trafodaethau pellach er mwyn sicrhau bod lefel y cymwysterau ar gyfer eiriolwyr gwirfoddol yn cael ei phennu ar y lefel gywir fel na fyddai gwirfoddolwyr yn cael eu hatal rhag ymgymryd â'r rôl bwysig hon. Galwodd nifer fach o ymatebwyr eraill am fwy o eglurder ynglŷn â pha gymwysterau y bydd yn ofynnol eu cynnwys ar y gofrestr gan fod ofn y gallai'r angen am gymwysterau gael effaith negyddol anfwriadol drwy hepgor gweithwyr sydd â sgiliau neu brofiad ehangach.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cytundeb ymhlith ymatebwyr ynglŷn â chynnwys y gofrestr. Teimlwn y bydd y rheoliadau, fel y'u drafftwyd, yn sicrhau'r cydbwysedd cywir o ran lefel y wybodaeth a gaiff ei chynnwys at y gofrestr.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn deall y pryderon a godwyd gan ymatebwyr ynglŷn â chyhoeddi cymwysterau ar y gofrestr. Er ein bod yn cydnabod bod cymwysterau yn rhoi sicrwydd bod gweithlu proffesiynol sydd wedi'i baratoi'n addas, nid ydym am hepgor yr amrywiaeth eang o sgiliau "mwy meddal" eraill sydd gan weithwyr gofal cymdeithasol nad oes modd eu mesur drwy gymwysterau academaidd. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r sector a'r Cyngor Gofal (ac yna Gofal Cymdeithasol Cymru) i sicrhau y gallwn nodi ffyrdd o gydnabod y sgiliau hyn fel na fydd y rhai nad oes ganddynt gymwysterau academaidd llawn, ond sydd ganddynt sgiliau addas i wneud eu gwaith, yn cael eu hepgor o'r gweithlu. Rydym hefyd yn parhau i weithio gyda'r sector a rheoleiddiwr y gweithlu er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar y gweithlu yn cael hyfforddiant i safon addas a bod y cymwysterau'n cael eu pennu ar y lefel briodol.

Rheoliadau ynghylch cynnwys y Gofrestr

18. A ddylai'r rheoliadau efelychu'r sefyllfa bresennol o ran cynnwys penderfyniadau ynghylch addasrwydd personau i ymarfer? Oes unrhyw anfanteision i'r dull hwn?

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm	16	10	0	1	21

Crynodeb

Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn y dylai'r rheoliadau efelychu'r sefyllfa bresennol a chynnwys penderfyniadau ynghylch addasrwydd i ymarfer, gan y byddai hyn yn cynnig cysondeb a dealltwriaeth a rennir o ystyr y term. Teimlwyd hefyd fod y wybodaeth, o'i chynnwys ar y gofrestr i'r cyhoedd, yn cyflawni rôl diogelu a hefyd yn ennyn hyder y cyhoedd bod y gweithlu'n cael ei reoleiddio'n briodol.

Fodd bynnag, rhoddwyd rhybudd gan rai ymatebwyr, a deimlai, fel yn achos yr ateb i'r cwestiwn ynglŷn â'r wybodaeth y dylid ei chynnwys ar y gofrestr, y dylai cwmpas y wybodaeth fod yn gymesur, yn deg ac yn berthnasol er mwyn iddi fodloni'r profion hyn. Teimlai pum ymatebydd fod angen cytuno ar feini prawf ar gyfer y data a ddelir ar y gofrestr, er mwyn caniatáu i wybodaeth gymesur a chywir gael ei gweld gan y cyhoedd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cytundeb ymhlith ymatebwyr ynglŷn â chynnwys y gofrestr mewn perthynas ag achosion o addasrwydd i ymarfer. Rydym yn cytuno y bydd y rheoliadau, fel y'u drafftwyd yn cynnig cysondeb defnyddiol â'r dull gweithredu a geir o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Rheoliadau ynghylch y rhestr o bersonau sydd wedi eu tynnu oddi ar y Gofrestr

19. Ydy'r ystod o wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys ar y rhestr o dan y rheoliadau yn gywir?

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm	16	12	1	1	18

Crynodeb

O'r rhai a nododd farn, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn fodlon bod y wybodaeth a restrir yn y rheoliadau yn cael ei chynnwys ar y rhestr; gyda sawl ymatebydd yn cytuno eu bod yn gosod goslef glir a chryno. Fodd bynnag, rhybuddiodd rhai y byddai angen i'r rhestr gael ei diweddarau'n rheolaidd er mwyn sicrhau cywirdeb.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cytundeb ymhlith y mwyafrif o'r rhai a nododd farn, sydd wedi gwneud sylwadau cadarnhaol ynglŷn â chynnwys y rheoliadau. Teimlwn y bydd y rheoliadau, fel y'u drafftwyd, yn sicrhau'r cydbwysedd cywir o ran lefel y wybodaeth a gaiff ei hychwanegu at y rhestr yn y dyfodol.

Rheoliadau ynghylch y rhestr o bersonau sydd wedi eu tynnu oddi ar y Gofrestr

20. Ydy'r rheoliadau yn rhoi'r dull gywir ar waith ar gyfer cyhoeddi'r rhestr?

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm	20	10	0	1	17

Crynodeb

Unwaith eto, cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (97% o'r rhai a nododd farn) mai hon oedd y ffordd gywir o gyhoeddi'r rhestr, gan ei bod yn darparu gwybodaeth dryloyw a hygyrch i'r cyhoedd a chyflogwyr fel ei gilydd. Fodd bynnag, fel gyda'r cwestiwn blaenorol (C19) rhybuddiodd rhai y byddai angen i'r rhestr gael ei diweddarau'n rheolaidd er mwyn sicrhau cywirdeb.

Unwaith eto codwyd y mater ynghylch a ddylai'r rheoleiddiwr hefyd gyhoeddi'r wybodaeth hon drwy gyfryngau eraill gan un ymatebydd, a deimlai nad oedd yn briodol bod yr unigolyn yn gorfod ysgrifennu at y rheoleiddiwr i gael y wybodaeth hon.

Teimlai sawl ymatebydd fod angen rhoi protocolau rhannu gwybodaeth ar waith er mwyn sicrhau bod pob rheoleiddiwr a chyrff eraill (yr Heddlu, yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, y Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Pobl Hŷn, ac ati) yn ymwybodol o unrhyw broblemau posibl mor fuan ag y bo'n ymarferol fel y gellir gweithredu'n ddi-oed.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cytundeb ymhlith y mwyafrif o'r ymatebwyr, a wnaeth sylwadau cadarnhaol ynglŷn â chynnwys y rheoliadau. Teimlwn y bydd y rheoliadau, fel y'u drafftwyd, yn sicrhau y caiff y rhestr ei chyhoeddi yn y ffordd gywir. Mae'r rheoliadau hefyd yn rhoi rhyddid i Gofal Cymdeithasol Cymru ymateb i geisiadau am wybodaeth o'r rhestr mewn ffordd briodol.

Rheoliadau ynghylch y ddyletswydd i sefydlu paneli etc

21. Ydych chi'n cytuno â'r dull o eithrio pobl rhag bod yn aelod o amrywiol baneli? Os nad ydych, eglurwch pam.

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm	20	7	1	1	19

Crynodeb

Unwaith eto, cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (93% o'r rhai a nododd farn) fod y meini prawf cywir wedi cael eu hawgrymu o ran cyfansoddiad y paneli amrywiol, gan y byddai'n atal gwrthdaro buddiannau rhag codi ac yn ennyn hyder y cyhoedd yn y broses.

Fodd bynnag, anghytunodd tri ymatebydd â'r meini prawf a restrwyd yn y rheoliadau a gofynnwyd am eglurder ynglŷn â pham bod un corff rheoleiddio, sef y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, wedi'i restru yn y rheoliadau fel corff a oedd wedi'i eithrio rhag cynnig aelod o banel er y gellid dadlau y dylai cyrff eraill sy'n rheoleiddio'r gweithlu (e.e. y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, ac ati) gael eu heithrio yn yr un modd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cytundeb ymhlith y mwyafrif o'r ymatebwyr, a wnaeth sylwadau cadarnhaol ynglŷn â chynnwys y rheoliadau. Rydym hefyd yn croesawu'r ymatebion a holodd pam mai dim ond y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth sydd wedi cael ei gynnwys yn y rheoliadau hyn. Mewn ymateb i hyn, bwriadwn addasu'r rheoliadau i gynnwys rheoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill. Bydd hyn yn atgyfnerthu'r rheoliadau, gan sicrhau eu bod yn cael y cydbwysedd cywir i ennyn hyder pobl bod y paneli'n ddiuedd ac yn dryloyw a rhoi mesurau diogelu ar waith i sicrhau y bydd aelodaeth y paneli yn golygu na fydd unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau. Er enghraifft, lle mae unigolyn cofrestredig wedi'i gofrestru â chorff arall sy'n rheoleiddio'r gweithlu, os yw wedi mynd gerbron gwrandawriad gan y corff rheoleiddio hwnnw, yna bydd y rheoliadau yn gwahardd unrhyw aelod panel o'r gwrandawriad hwnnw rhag bod yn aelod panel o un o baneli addaswydd i ymarfer Gofal Cymdeithasol Cymru.

Ni fwriadwn newid y ffordd y mae paneli addaswydd i ymarfer yn gweithredu a bydd rheoleiddiwr y gweithlu, sef Cyngor Gofal Cymru (a Gofal Cymdeithasol Cymru wedi hynny) yn parhau i amlinellu'r gweithdrefnau y bydd yn eu dilyn fel rhan o'u rheolau. Mae'r rheoliadau yn caniatáu mwy o reolaeth i'r rheoleiddiwr wrth ddrafftio'r rheolau ond yn gosod y mesurau diogelu y bwriedir iddynt sicrhau bod aelodau paneli yn ddiuedd ac nad oes unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau.

Rheoliadau ar achosion gerbron paneli

22. Ydych chi'n cytuno â chynnwys y rheoliadau sy'n ymwneud â'r ffordd y bydd paneli yn gweithredu? Os nad ydych, eglurwch pam. Os nad

ydych, eglurwch pam.

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm	17	11	0	2	18

Crynodeb

Cafwyd cryn gytundeb ynglŷn â chynnwys cyffredinol y rheoliadau, gan fod teimlad eu bod yn sicrhau tegwch ac atebolrwydd. Teimlai llawer o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn fod y rheoliadau'n gynhwysfawr ac yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng diogelu'r cyhoedd ac ennyn hyder yn y broses ar ran y rhai sydd wedi'u cofrestru.

Fodd bynnag, teimlai un ymatebydd y dylai'r rheoliadau hefyd ystyried amseriad paneli o'r fath ac mai hon oedd yr adeg gywir i sicrhau bod hyn yn unol â chyfraith cyflogaeth. Teimlai ymatebydd arall y dylai'r panel, yn hytrach na chanolbwyntio ar ddwyn unigolyn i gyfrif drwy roi cosb, weithredu mewn ffordd fwy adeiladol i gefnogi gweithio mewn partneriaeth a dysgu a gwelliant parhaus.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cytundeb ymhlith y mwyafrif o'r ymatebwyr, a wnaeth sylwadau cadarnhaol ynglŷn â chynnwys y rheoliadau. Teimlwn fod y rheoliadau'n sicrhau bod y paneli yn parhau i ddiogelu'r cyhoedd ac ennyn hyder mewn proses gwneud penderfyniadau gadarn sy'n dwyn y rhai sydd wedi'u cofrestru i gyfrif am eu gweithredoedd. Mae'n rhaid inni sicrhau bod gan reoleiddiwr y gweithlu yr adnoddau cywir i ymchwilio a chymryd camau priodol i ymdrin ag unrhyw bryderon a godwyd o ran perfformiad neu weithredoedd unigolyn sydd wedi'i gofrestru.

Noda Rheoliad 4(e) y dylai paneli ymdrin ag achosion mewn ffordd deg a chyfiawn "...osgoi oedi, i'r graddau y mae hynny'n gydnaws â rhoi ystyriaeth briodol i'r materion." Credwn y bydd hyn yn sicrhau bod paneli yn cael digon o amser i gasglu ac ystyried yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r achos a gwneud penderfyniad mwy hyddysg.

Rheoliadau ynghylch achosion gerbron paneli

23. Ydych chi'n cytuno bod y rheoliadau yn canolbwyntio ar faterion y dylid eu cynnwys mewn rheoliadau?

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim tic
--	--------	-----------------	--------------------	-----------	---------

Cyfanswm	18	12	1	0	17
----------	----	----	---	---	----

Crynodeb

Cafwyd cryn gytundeb ynglŷn â chydbwysedd cyffredinol y rheoliadau a amlinellwyd gan y cwestiwn hwn, gan fod teimlad eu bod yn cynnig proses deg a chadarn.

Fodd bynnag, teimlai un ymatebydd fod gormod o faterion wedi'u nodi o fewn y rheoliadau, a allai arwain at amryfusedd ac y byddent yn cael eu hatgyfnerthu pe bai'r ffordd yr ymdrinnir â phob mater yn cael ei mireinio i roi mwy o ffocws. Teimlai ymatebydd arall y dylai'r iaith a ddefnyddir fod yn fwy cyson a chydawns â'r hyn a ddefnyddir mewn rhannau eraill o'r rheoliadau er mwyn adlewyrchu'r ffocws ar welliant parhaus ac yn unol ag ysbryd cefnogaeth.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cytundeb ymhlith y mwyafrif o'r ymatebwyr, a wnaeth sylwadau cadarnhaol ynglŷn â chynnwys y rheoliadau. Teimlwn fod y rheoliadau yn rhoi amlinelliad clir a chadarn o'r broses a fydd yn arwain at gyflwyno achos gerbron y paneli priodol. Mae'r rheoliadau yn dilyn gweithdrefnau'r paneli presennol gan fod y rhain wedi hen sefydlu ac wedi bod yn gweithio'n dda.

Rheoliadau ynghylch Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol

24. Ydych chi'n ystyried bod y dull arfaethedig yn ddigonol i gefnogi ein hamcanion ar gyfer Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol?

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm	14	13	1	1	19

Crynodeb

Ar y cyfan, cefnogodd yr ymatebwyr fwriad Llywodraeth Cymru i ddatblygu templed a phecyn cymorth mewn perthynas â pharatoi Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol y byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol gydymffurfio â hwy. Cadarnhaodd nifer o ymatebwyr y bydd hyn yn cefnogi'r amcan o sicrhau bod Adroddiadau Blynyddol yn glir ac yn hygyrch. Cytunwyd hefyd y bydd yn golygu bod awdurdodau lleol yn gweithredu'n gyson, a fydd hefyd yn ei gwneud yn haws cymharu ledled Cymru. Dywedodd Pwyllgor Meddygol Cymru fod y dull gweithredu'n sicrhau safoni, eglurder a chymhariaeth rhwng awdurdodau lleol a dywedodd Age Cymru y byddai'n croesawu tryloywder gweithredu ar sail un templed.

Rhoddodd nifer o ymatebwyr awgrymiadau a chyngor i helpu i ddatblygu'r templed a'r pecyn cymorth. Roedd y rhain yn cynnwys awgrymiadau o arfer da a pharodrwydd i fod yn rhan o'r broses ymarferol o ddatblygu'r cynnyrch terfynol.

Cafwyd nifer o awgrymiadau a oedd yn ymwneud â themâu ac adrannau angenrheidiol yr Adroddiad Blynyddol. Tynnodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sylw at adroddiad ei swyddfa, *Adroddiad ar Gartrefi Gofal, Lle i'w Alw'n Gartref* sy'n nodi'r materion allweddol y byddai'r Comisiynydd yn disgwyl iddynt gael eu cynnwys yn adroddiadau blynyddol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Cynigiodd y Comisiynydd bedwar maes allweddol y dylai awdurdodau lleol gyflwyno adroddiadau arnynt ac awgrymodd fod angen rheoliadau i wneud gofynion mewn perthynas â chynnwys yn ogystal â ffurf adroddiadau blynyddol.

Ar y cyfan, roedd ymatebion awdurdodau lleol yn gefnogol i'r cynnig y byddai'n rhaid i adroddiadau blynyddol fod yn gyson â thempled a phecyn cymorth. Dywedodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe fod y syniad o dempled yn gadarnhaol, ond nad oedd yn glir ynglŷn â hyblygrwydd y templed lle ceir dulliau gweithredu Rhanbarthol neu Bartneriaeth na sut i adlewyrchu'r rhain.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr

Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a SOLACE Cymru, er mwyn datblygu'r templed y mae'r rheoliadau yn cyfeirio ato. Bydd y templed yn safoni'r gofynion adrodd ymhlith awdurdodau lleol a'u gwneud yn gymesur, gan sicrhau bod adroddiadau'n glir ac yn hygyrch, gan ei gwneud yn bosibl i berfformiad awdurdodau lleol gael ei gymharu a'i goladu'n hawdd.

Wrth ddatblygu'r templed a'r pecyn cymorth caiff yr holl awgrymiadau a wnaed drwy'r ymgynghoriad hwn eu hystyried. Byddwn hefyd yn gwahodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru i helpu i ddatblygu'r templed a'r pecyn cymorth.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod y templed a'r pecyn cymorth yn addas at y diben yng ngoleuni'r ymatebion a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad.

Rheoleiddio Gwasanaethau Eirioli

25. Ydych chi'n cytuno y dylai rheoleiddio gwasanaethau eirioli ganolbwyntio ar Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol fel y'i diffinnir yn y Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas ag eiriolaeth o dan Ran 10 a Rhannau cysylltiedig o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014?

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm	17	10	2	1	18

Crynodeb

Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn y dylai rheoleiddio gwasanaethau eirioli ganolbwyntio ar Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol. Bu croeso i gyfundrefn reoleiddio a'r canfyddiad oedd bod y dull gweithredu arfaethedig yn briodol ac yn gymesur.

Galwodd nifer o ymatebwyr am gydnabyddiaeth gliriach nad Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol yw'r unig fath o eiriolaeth sydd ar gael ac am ragor o eglurder ynglŷn â'r hyn y mae'r cynnig hwn yn ei olygu'n ymarferol. Y consensws oedd y byddai'n synhwyrol canolbwyntio ar eiriolaeth broffesiynol gan y byddai rheoleiddio eiriolaeth anffurfiol gan ddinasyddion / cymheiriaid / gwirfoddolwyr o bosibl yn peri i eiriolwyr anffurfiol beidio â chael eu defnyddio. Fodd bynnag, cododd nifer fach o ymatebwyr bryderon y byddai rheoleiddio'r gwasanaethau hyn yn statudol yn niweidiol o bosibl i hunaneiriolaeth am nad yw llawer o awdurdodau lleol yn deall y gwahaniaeth rhwng eiriolaeth a hunaneiriolaeth.

Cafwyd neges gyson y dylai fod cydnabyddiaeth bod rôl eiriolwr proffesiynol annibynnol yn wahanol i broffesiynau gwaith gofal cymdeithasol eraill gan ei bod yn canolbwyntio ar roi llais i bobl a sicrhau y câi eu dymuniadau eu hystyried, p'un a yw hyn er eu budd pennaf ai peidio. O ganlyniad, dylai Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol gael eu cydnabod am eu safonau a'u cymwysterau proffesiynol.

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at yr angen i atgyfnerthu'r cyswllt rhwng Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Deddf 2014 a'r Dull Gweithredu Cenedlaethol sy'n datblygu gan ei fod eisoes yn ymgorffori'r Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer eiriolaeth statudol i blant a gall weithio tuag at gyflawni'r Datganiad Llesiant.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion y dylai rheoleiddio ganolbwyntio ar Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith datblygu paratoadol a wnaed gyda grŵp technegol bach a oedd yn

cynnwys cynrychiolwyr ag arbenigedd perthnasol, gwybodaeth dechnegol a phrofiad ymarferol. Yma rôl yr Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol yw helpu unigolion i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau lle mae awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf 2014.

Mae Rhan 10 - Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â rhan 10 (Cwynion, Sylwadau a Gwasanaethau Eirioli) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi'r mathau gwahanol o eiriolaeth sydd ar gael ac mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gydnabod pwysigrwydd y mathau gwahanol hyn. Bydd rhagor o ystyriaeth i sicrhau bod neges glir ynglŷn â therminoleg ac iaith ac nad oes unrhyw hierarchaeth o ran mathau o eiriolaeth ac y bydd dewis unigolion yn parhau.

Mae Llywodraeth Cymru yn glir na ddylid cyfyngu ar ddewis unigolyn oherwydd pwyslais ar wasanaethau eirioli a gomisiynwyd. Mae'n rhaid bod gan yr unigolyn yr hawl bob amser i ddewis pwy sy'n eirioli ar ei ran. Fel rhan o'r blaengynllun gwaith bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffordd orau o gydnabod hyn a chysylltu â gofynion o dan ddeddfwriaeth wahanol, gan gynnwys mwy o ffocws ar y gofynion a'r safonau i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol a fydd yn rhan o ail gam y broses weithredu.

26. Ydych chi'n ystyried y dylai gofynion Deddf 2016 fod yn gymwys i ymarferydd unigol sy'n gweithredu fel busnes annibynnol? Os nad ydych, eglurwch pam.

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm	21	4	1	0	22

Crynodeb

Er bod cefnogaeth gyffredinol y dylai gofynion Deddf 2016 fod yn gymwys i ymarferydd unigol sy'n gweithredu fel busnes annibynnol codwyd nifer o bwyntiau. Roedd y prif faterion a godwyd yn yr ymatebion fel a ganlyn:

Os bydd unigolyn yn gweithredu'n fasnachol ac yn cael ei dalu i gyflawni rôl Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol, yna dylai ddod o dan yr un rheoliadau â rhywun sy'n gweithio fel sefydliad sy'n darparu'r un gwasanaethau. Felly awgrymwyd y gellid cynnwys prosesau cofrestru ond mewn ffordd symlach i unig ymarferwyr.

Gofynnwyd am eglurder ynglŷn â goblygiadau bod yn ddarparwr. Yn benodol, y potensial o gael eich atal rhag darparu gwasanaeth os nad ydych ar restr yr awdurdod lleol o ddarparwyr a ffefrir. Hefyd, gwell dealltwriaeth o'r hyn y byddai'n ei olygu i eiriolwyr hunangyflogedig.

Ystyriwyd bod rheoleiddio pob eiriolwr proffesiynol yn beth da gan y bydd hyn yn sicrhau bod mesurau diogelu ar waith i roi sicrwydd i bobl ynglŷn â'u dilysrwydd a'u safonau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau cymesuredd wrth wneud rheoliadau o dan y Ddeddf a bydd yn parhau i ystyried yr adborth a'r pryderon a godwyd.

Rydym yn cydnabod na ddylai unrhyw reoliadau o dan y Ddeddf hon danseilio gallu'r sector i barhau i gefnogi unigolion sy'n agored i niwed tra'n sicrhau y cynigir diogelwch y Ddeddf i'r un unigolion hyn.

Caiff hyn ei ystyried ymhellach er mwyn llywio gwaith cam 2 sy'n ystyried adran 27 o'r Ddeddf a fydd yn canolbwyntio ar safonau gofal a chymorth a ddarperir gan ddarparwyr gwasanaethau.

27. Ydych chi'n ystyried y dylid gweithredu gofynion Deddf 2016 ar gyfer gwasanaethau eirioli fesul sector, ee gwasanaethau eirioli ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant penodedig eraill ac wedyn eiriolaeth broffesiynol annibynnol? Os felly, rhowch dystiolaeth gryno.

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm	10	8	4	2	24

Crynodeb

O'r rhai a nododd ymateb i'r cwestiwn hwn nododd 75% y dylai gweithredu fod fesul sector. Er mwyn cydnabod bod hwn yn faes nad yw wedi cael ei reoleiddio o'r blaen a bod risg sylweddol o oblygiadau annisgwyl, ystyriwyd y byddai gweithredu fesul sector yn lleihau'r risg honno.

Cododd y rhai nad oeddent yn cytuno â'r cynnig hwn bryderon y gall rhai darparwyr gael eu gadael ar ôl os bydd eraill yn dod o dan y gyfundrefn reoleiddio'n gynt gan y gall rhai darparwyr fod o dan anfantais mewn marchnad gystadleuol. Dylai pob gwasanaeth a ddarperir i unigolion sy'n agored i niwed gael ei gyflwyno'n unol â'r un terfynau amser.

O ran gweithredu fesul sector, awgrymwyd bod y sector Plant mewn sefyllfa dda i arwain drwy esiampl gan fod ganddo hanes hir o roi cymorth eiriolaeth i blant sy'n derbyn gofal a phlant penodol eraill.

Byddai tystiolaeth o waith y Cyngor Gofal ar reoleiddio gweithwyr gofal plant preswyl yn cefnogi'r farn mai drwy ddechrau gyda'r sector plant sy'n derbyn gofal y dylid rheoleiddio fesul sector. Byddai'r achosion y mae'r Cyngor Gofal

yn ymdrin â hwy yn awgrymu y byddai eiriolaeth effeithiol i blant yn fuddiol i blant sy'n derbyn gofal a'r staff sy'n gweithio â hwy yn y sector gofal plant preswyl.

Er bod cefnogaeth i gyfnod trosiannol, roedd yn amlwg y byddai'r sector yn croesawu rhagor o drafodaeth er mwyn sicrhau y gellir gweithredu newidiadau'n briodol a heb effeithio ar ddarparu gwasanaethau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Ceir cefnogaeth gref o blaid gweithredu fesul sector o'r adborth a gyflwynwyd. Mae Llywodraeth Cymru yn deall pwysigrwydd sicrhau y gweithredir ar hyn mewn ffordd briodol nad yw'n rhoi unrhyw un sy'n darparu gwasanaeth nac unrhyw un sy'n derbyn gwasanaeth o dan anfantais.

Bydd Llywodraeth Cymru, drwy gam dau y broses weithredu, yn parhau i weithio gyda'r gweithgor technegol a grwpiau rhanddeiliaid ehangach i gael gwell dealltwriaeth o'r ffordd orau o weithredu gofynion Deddf 2016.

28. Beth yw'r effaith ddisgwyliedig ar ddarparwyr eiriolaeth fel gwasanaeth cofrestredig o dan y Ddeddf?

Crynodeb

Canolbwyntiodd yr adborth cyffredinol ar yr effaith bosibl ar drefniadau hirsefydledig, darparwyr presennol a all gael eu hatal rhag cynnig gwasanaethau Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol ac effaith costau ychwanegol.

Mynegwyd yn glir na ddylai darpariaeth rheng flaen, fel gyda gwasanaethau eraill, gael eu peryglu am fod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio i ymdrin â gofynion gweinyddol. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig i unig ddarparwyr neu ddarparwyr bach gan y gall gyfyngu ar eu gallu i ymdrin ag achosion a gyfeirir a llwyth achosion.

O ystyried mai dyma'r tro cyntaf i wasanaethau eirioli ddod o dan y gyfundrefn rheoleiddio ac arolygu codwyd cwestiynau ynglŷn â gofynion cofrestru gwasanaethau sy'n darparu eiriolaeth broffesiynol annibynnol, yn benodol a fyddai'n rhaid iddynt gofrestru ag AGGCC cyn eu bod yn gallu cael eu comisiynu neu a fyddent yn cofrestru ar ôl cael eu rhoi ar restr o ddarparwyr a ffeirir. Roedd angen meddwl ynghylch beth fyddai'r goblygiadau i Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol pe na baent ar restr o ddarparwyr.

Cydnabuwyd y bydd y dull penodol o gofrestru Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol yn unig yn helpu comisiynwyr i lunio a dyfarnu contractau ond ceir risg ganfyddedig y gallai trefniadau lleol hirsefydledig ddiodeff o ran darparwyr na allant gynnig gwasanaeth Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol llawn ar hyn o bryd er eu bod yn parhau i gynnig gwasanaethau ataliol gwerthfawr.

Nododd rhai ymatebwyr fod risg bosibl y gall darparwyr presennol gael eu hatal rhag cynnig gwasanaethau Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol oherwydd baich rheoleiddio canfyddedig. Gall gwasanaethau eirioli llai ffurfiol, megis

gwasanaeth eirioli cyfunol a'r rhai sy'n cynnig cyngor a chymorth i unigolion, fod mewn sefyllfa dda i ymgynnig fel Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol, ond efallai na allant sicrhau contractau wrth i gomisiynwyr megis awdurdodau lleol geisio cydymffurfio â Deddf 2016 drwy gcontractio ag Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol yn unig. Mae angen cefnogi'r rhychwant ehangach o wasanaethau eirioli yng nghyd-destun ehangach cefnogi unigolyn o ran ei anghenion, ei safbwyntiau, ei ddymuniadau a'i deimladau.

Mynegodd nifer o ymatebwyr bryder y bydd gwneud gwasanaethau eirioli yn wasanaeth cofrestredig yn arwain at gostau ychwanegol. At hynny, roedd yn bosibl y byddai'r costau ychwanegol hyn yn cael eu trosglwyddo i awdurdodau lleol a fydd yn comisiynu'r gwasanaethau hyn ar adeg pan fo cyllidebau eisoes yn wynebu pwysau cyllidebol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi myfyrio ar yr ymatebion a gyflwynwyd ac wedi dod i'r casgliad y bydd angen, yn y dyfodol, ystyried ymhellach oblygiadau anfwriadol posibl rheoleiddio Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol fel y'u nodwyd gan ymatebwyr. Caiff trafodaethau pellach â rhanddeiliaid eu cynnal er mwyn ystyried y pwyntiau a godwyd yn fanylach.

29. Ydych chi'n cytuno mai dim ond y rheini sy'n rheoli gwasanaethau eirioli, fel gwasanaeth rheoleiddiedig, ddylai orfod cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru? Os nad ydych, eglurwch pam.

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm	10	11	4	4	19

Crynodeb

Er mai cytuno, neu dueddu i gytuno y dylai pob eiriolwr gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru oedd yr ymateb a ffafriwyd ymhlith y rhai a nododd farn, teimlai rhai ymatebwyr na ddylai gwasanaethau annibynnol orfod cofrestru.

Cytunodd mwyafrif y dylai unrhyw ofynion newydd fod yn lleiaf beichus â phosibl; felly dim ond y rhai sy'n rheoli'r gwasanaeth ddylai orfod cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. At hynny, byddai hyn yn cadw'r gwasanaethau eirioli o dan un brif fantell at ddibenion rheoleiddio a thrwy hynny reoli prosesau'n effeithiol.

Cydnabu ymatebion bwysigrwydd monitro'r broses weithredu er mwyn sicrhau bod y dull gweithredu'n gweithio, ac y gellir cynnwys elfennau eraill o dan y trefniadau cofrestru fel y bo angen.

Nodwyd, er y gall rôl Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol ddod o dan y diffiniad o

weithiwr gofal cymdeithasol, fod rhywfaint o bryder ynglŷn â'r cynigion i'w gwneud yn ofynnol i Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru yn ychwanegol at y gofyniad i Reolwr gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru a'r gofyniad i Unigolyn Cyfrifol i gofrestru ag AGGCC. Gofynnodd ymatebwyr am well rhesymeg dros gofrestru Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol a Rheolwyr â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Bu rhywfaint o ystyriaeth o'r ffaith y byddai Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol sy'n gweithio fel staff gwasanaeth rheoleiddiedig cofrestredig yn dod o dan God Ymddygiad Gofal Cymdeithasol Cymru. Felly, mae'n berthnasol bod yn ymwybodol o'r ffaith bod gwasanaethau eirioli wedi bod yn mynd drwy broses broffesiynoli a dylai adolygiad o'u cod ymddygiad presennol ochr yn ochr â chod ymddygiad Gofal Cymdeithasol Cymru gael ei gynnal er mwyn chwilio am anghysondebau a gwahaniaethau o ran dulliau gweithredu ac ymarfer sy'n deillio o natur eiriolaeth fel proffesiwn.

Awgrymwyd hefyd y dylid ailystyried y cwestiwn hwn unwaith bod trefniadau rheoleiddio eiriolaeth wedi'u sefydlu.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r sylwadau a gyflwynwyd gan ymatebwyr a bydd yn eu hystyried ymhellach.

Rydym yn glir ein meddwl o hyd y dylai'r gwaith hwn gefnogi egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn yr ystyr y dylai fod modd i bawb fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau ac na ddylai unrhyw waith yn y dyfodol wanhau hyn.

30. Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pam/pam ddim?

Crynodeb

Ar y cyfan, teimlai'r ymatebwyr y byddai'r rheoliadau'n cael effaith gadarnhaol ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig. Er mwyn ategi hyn cyfeiriodd yr ymatebion at y canlynol:

- Bydd cynnwys eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn y diffiniad o 'wasanaethau eirioli' yn sicrhau'r un mynediad i wasanaethau a chymorth i bawb
- Ar y cyfan, bydd y rheoliadau arfaethedig yn codi safonau ac yn cynnig diogelwch; er enghraifft, bydd y mesurau diogelu ynglŷn â'r cofrestru a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig yn sicrhau y caiff grwpiau sy'n agored i niwed eu diogelu rhag y risg o gam-drin a chamymarfer.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn defnyddio'r adborth a gafwyd drwy'r ymgynghoriad hwn i atgyfnerthu ein cynigion a'n rheoliadau a thrwy hynny sicrhau y caiff grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig eu diogelu rhag risgiau.

Rydym wedi drafftio cyfres o asesiadau o effaith i gwmpasu nifer o feysydd pwysig megis cydraddoldeb hawliau plant a'r Gymraeg. Ein bwriad yw y caiff drafftiau terfynol yr asesiadau eu cyhoeddi ochr yn ochr â gosod y rheoliadau gerbron y Cynulliad er mwyn cynorthwyo gyda'r broses graffu. Bydd yr asesiadau hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

31. Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pam/pam ddim?

Crynodeb

Er bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn fodlon y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol gyffredinol i grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig, nododd ymatebwyr nifer o feysydd a ddylai gael eu monitro'n fanwl. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Gall costau gwasanaethau gynyddu'n gyffredinol a allai gael eu trosglwyddo i ddefnyddwyr gwasanaethau, er enghraifft o ganlyniad i gofrestru gweithwyr cymdeithasol neu newidiadau i wasanaethau eirioli.
- Gall rhai gwasanaethau gael eu harwain gan wirfoddolwyr ac nid yw effaith rheoleiddio gwasanaethau ar y gwasanaethau hyn a arweinir gan

wirfoddolwyr yn eglur. Gallai hyn arwain at golli gwasanaethau a allai gael effaith ar grwpiau megis pobl hŷn.

- Teimlai rhai ymatebwyr, yn gyffredinol, y gall y broses bresennol o ddarparu gwybodaeth fod yn gymhleth ac yn anhydrin eisoes felly awgryma ymatebion fod angen monitro unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig newydd er mwyn sicrhau bod unrhyw brosesau newydd yn llai cymhleth ac na fydd grwpiau ar eu colled.
- Noda nifer o'r rheoliadau arfaethedig y bydd gwybodaeth ar-lein i'r cyhoedd, er enghraifft rheoliadau ynglŷn â datganiadau blynyddol darparwyr. Felly, mae'n rhaid bod strategaeth codi ymwybyddiaeth er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod bod y wybodaeth ar gael a hefyd ffordd o sicrhau y gall pobl gael gafael ar y wybodaeth mewn fformatau amgen.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Fel y nodwyd uchod, bwriadwn gyhoeddi fersiynau terfynol o'r gyfres lawn o asesiadau o effaith ochr yn ochr â gosod y rheoliadau er mwyn helpu'r Cynulliad i graffu arnynt. Yn ogystal â hyn caiff y rheoliadau eu hategu gan Femoranda Esboniadol ac Asesiadau Effaith Rheoleiddiol a fydd yn ystyried yr effaith ar gostau ac ar gystadleuaeth rhwng gwasanaethau.

32. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w cofnodi.

Crynodeb

Y tu hwnt i'r ymgynghoriad ffurfiol myfyriodd ymatebwyr ar ddiben y ddeddfwriaeth. Yn benodol, a yw'r cynnig hwn yn gwella neu'n sicrhau ansawdd eiriolaeth annibynnol neu'n cyfyngu ar hygyrchedd ac ansawdd gwasanaethau.

Drwy ymgynghori ynghylch eiriolaeth ar y cam cynnar hwn cafwyd cipolwg ar y materion a chyfle i ystyried y cymhlethdodau a'r manylion yn fanylach cyn i'r rheoliadau gael eu datblygu.

Roedd ymatebwyr yn awyddus i dynnu sylw at y ffaith bod gofal sy'n canolbwyntio ar unigolion yn bwysig, ac mai'r allwedd i sicrhau hyn yw drwy weithlu hapus sy'n cael ei werthfawrogi. Felly, mae'n rhaid i unrhyw reoliadau sy'n effeithio ar y gweithlu hwn gael eu hystyried yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn gytbwys. Ar fater tebyg, nododd ymatebwyr hefyd fod ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a dull cydgynhyrchu hefyd yn hanfodol er mwyn sicrhau y caiff unrhyw ddeddfwriaeth ei datblygu'n drwyadl i ymgorffori safbwyntiau a barn grwpiau rhanddeiliaid hollbwysig.

Nododd rhai ymatebion yn yr adran hon fod y rheoliadau yn rhoi pwyslais mawr ar AGGCC a Chyngor Gofal Cymru. Teimlai ymatebwyr ei bod yn hollbwysig bod y ddau sefydliad hyn yn cael y cymorth a'r amser sydd eu hangen er mwyn

sicrhau bod eu seilweithiau a'u dealltwriaeth o'r newidiadau arfaethedig ar waith i'w galluogi i fod yn barod.

Gan gadw safonau mewn cof, ystyriodd yr ymatebwyr yr elfen ychwanegol y byddai rheoleiddio pellach ym maes eiriolaeth yn ei golygu o ran y Nod Perfformiad Ansawdd (Sicrhau Ansawdd Eiriolaeth) a'r cymwysterau mewn eiriolaeth y mae rhai sefydliadau eirioli yn gweithio yn unol â hwy ar hyn o bryd.

Cododd rhai ymatebwyr bryderon ynglŷn â gallu Gofal Cymdeithasol Cymru ac AGGCC i ddeall eiriolaeth fel gwasanaeth a thirwedd eiriolaeth yng Nghymru yn llawn er mwyn iddynt lunio a chynnal safonau yn y maes hwn. Cydnabuwyd bod rheoleiddiwr y gwasanaethau'n chwarae rhan hollbwysig er mwyn sicrhau y caiff rheoliadau ar gyfer Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol eu cyflwyno'n llwyddiannus ac felly bydd angen i'r rheoleiddiwr gael dealltwriaeth dda o eiriolaeth er mwyn rheoleiddio'r sector.

Awgrymwyd cofrestr o eiriolwyr. Cododd hyn gwestiynau ynglŷn â phwy fyddai yn y sefyllfa orau i'w datblygu.

Cododd ymatebwyr y posibilrwydd o fwch deddfwriaethol canfyddedig rhwng y gweithlu gofal cymdeithasol nad yw'n gofrestredig a'r gweithlu gofal iechyd nad yw'n gofrestredig a'u sgiliau gwahanol. Awgrymwyd bod Deddf 2016 yn esgor ar anghysondeb o bosibl lle mae un grŵp yn cael ei reoleiddio ond nid yw'r llall. Yn benodol, mae posibilrwydd o oblygiadau anfwriadol pan ddisgwylir i rywun sydd wedi'i gofrestru weithio rhwng dau fframwaith rheoleiddio gwahanol.

Galwyd am eglurder terminoleg ynglŷn â'r term "comisiynu" er mwyn sicrhau nad oes unrhyw oblygiadau anfwriadol yn ymarferol. Yn benodol, dylid defnyddio diffiniad caeth o gomisiynu mewn fersiynau o reoliadau drafft yn y dyfodol.

Codwyd cwmpas y ddeddfwriaeth, o ran y gofynion nad oeddent yn ymestyn i hawliau i eiriolaeth megis y Ddeddf Iechyd Meddwl, Deddf Galluedd Meddwl 2005 a Deddf Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Ceir risg bosibl y gallai unigolion syrthio rhwng fframweithiau deddfwriaethol rhwng Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol a Gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol/Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r holl ymatebion i'r adran hon ac mae'n glir ei meddwl o hyd bod angen parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn â'r maes eiriolaeth sy'n datblygu er mwyn rhoi'r cyfle posibl mwyaf i'r sector a rheoleiddwyr lunio'r cynigion ymhellach ynghyd â'r amser i'w rhoi ar waith.

Prif ddiben y Ddeddf yw creu system rheoleiddio ac arolygu effeithiol ac ymatebol, ac un sy'n canolbwyntio ar welliant a chanlyniadau i bobl. Mae'n amlwg bod safonau ac ansawdd yn achos pryder i ymatebwyr ac y byddant yn rhan annatod o'r system rheoleiddio ac arolygu newydd a gyflwynir gan y Ddeddf hon. Bydd angen parhau i ystyried y bylchau posibl yn y ddeddfwriaeth a nodwyd a ph'un a yw'r cwmpas presennol yn gywir.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gydag AGGCC a Chyngor Gofal Cymru drwy gydol y broses o ddatblygu'r Ddeddf a'i his-ddeddfwriaeth megis y cynigion a ystyriwyd gan yr ymgynghoriad hwn. Bydd y fath gydweithio agos yn parhau wrth inni baratoi'r rheoliadau ar eu ffurf derfynol ar gam un a symud ymlaen i ddatblygu'r rheoliadau ar gam dau. Ystyrir bod y fath ymgysylltu cydlynus rhwng y sefydliadau, ynghyd â rhanddeiliaid eraill, yn hollbwysig er mwyn i'r Ddeddf hon gael ei rhoi ar waith yn llwyddiannus a chyflawni ei nodau.

Crynodeb o Ddadansoddiad Llywodraeth Cymru

Rheoliadau ynghylch gwasanaethau

Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynigion. Cofrestru a Datganiadau Blynyddol oedd y meysydd lle y gwelwyd y diddordeb mwyaf ymhlith ymatebwyr. Roedd gan ymatebwyr ddiddordeb penodol yn y datganiad o ddiben a chynnwys y datganiad blynyddol. Hefyd, tynnodd lleiafrif cymhellol o ymatebwyr sylw at broblemau y byddai darparwyr, yn enwedig rhai bach, yn eu hwynebu o ganlyniad i'r cynnig i bennu terfyn amser o 28 diwrnod ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer datganiadau blynyddol.

Gan y caiff y Ddeddf ei gweithredu fesul cam cododd sawl ymatebydd bryderon neu faterion y byddwn yn ymdrin â hwy o dan y rheoliadau a gaiff eu gwneud ar gam dau. Mae'r rheoliadau sydd i'w gwneud o dan Adranau 27 ac 28 yn berthnasol iawn yn hyn o beth; bydd rheoliadau Adran 27 yn amlinellu dyletswyddau darparwyr ynglŷn â gofal sy'n canolbwyntio ar unigolion a bydd Adran 28 yn pennu dyletswyddau'r Unigolyn Cyfrifol. Er enghraifft, nododd rhai ymatebwyr y dylai addasiadau rhesymol a wnaed gael eu cynnwys mewn dogfennau cofrestru ond rydym yn rhagweld y byddai'n well pe baem yn ymdrin â'r rhain drwy reoliadau Adran 27.

Bu sawl ymateb yn cynnwys trafodaeth ac awgrymiadau ynglŷn â gweithredu'r rheoliadau'n ymarferol – er enghraifft, trafododd sawl ymatebydd y system TGCh a fydd yn sail i brosesau cofrestru a datganiadau blynyddol. Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei choladu a'i throsglwyddo i'r swyddogion perthnasol, er enghraifft mae adborth ar TGCh wedi cael ei roi i'r rheolwr prosiect ar gyfer gweithredu'r Ddeddf yn AGGCC.

O ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn bwriadwn wneud tri newid i'r rheoliadau ynghylch gwasanaethau sef:

- Diwygio'r rheoliadau ynglŷn â chofrestru i'w gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr roi manylion ceisiadau a wrthodwyd gan reoleiddwyr eraill y DU
- Cynnwys "nyrsys cofrestredig" fel categori o staff ar ddatganiadau blynyddol darparwyr
- Estyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno datganiadau blynyddol darparwyr o 28 diwrnod i 56 diwrnod ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae a wnelo â hi.

Rheoliadau ynghylch Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru i ddatblygu templed a phecyn cymorth mewn perthynas â pharatoi Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithas Awdurdodau Lleol ac yn cytuno y byddai'r dull gweithredu hwn yn cefnogi'r amcan o sicrhau bod gan Adroddiadau Blynyddol strwythur cyson a'u bod yn glir ac yn hygyrch. Rhoddodd nifer o ymatebwyr awgrymiadau a chyngor i helpu i

ddatblygu'r templed a'r pecyn cymorth. Roedd y rhain yn cynnwys awgrymiadau o arfer da a pharodrwydd i fod yn rhan o'r broses ymarferol o ddatblygu'r cynnyrch terfynol.

Wrth ddatblygu'r templed a'r pecyn cymorth, byddwn yn ystyried yr holl awgrymiadau a wnaed drwy'r ymgynghoriad hwn. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod y templed a'r pecyn cymorth yn addas at y diben yng ngoleuni'r ymatebion a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad.

Rheoliadau ynghylch y gweithlu

Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r rheoliadau drafft ynghylch y gweithlu ymhlith y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn. Yn wir, teimlai llawer ohonynt eu bod yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng bod yn gymesur a sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu diogelu.

Lle y codwyd rhai pryderon, canolbwyntiodd y rhain ar yr angen am fwy o eglurder ynglŷn â'r disgrifyddion i'w defnyddio i ddiffinio gweithwyr gofal cymdeithasol a'r data a gâi eu cyhoeddi ar y gofrestr. Rydym yn cydnabod bod angen barnu'r materion hyn yn ofalus a chredwn y bydd y disgrifyddion arfaethedig o weithwyr gofal cymdeithasol yn parhau â'r dull sydd wedi cael ei ddefnyddio a'i ddeall gan y sector ers Deddf Safonau Gofal 2000 ac y byddant yn cynnig hyblygrwydd yn y gweithlu wrth i rolau a theitlau swyddi newid. Credwn hefyd fod y rheoliadau ynghylch cynnwys y gofrestr yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng hawliau'r rhai sydd wedi'u cofrestru a'r angen i roi sicrwydd i'r cyhoedd.

Galwyd yn daer hefyd am i bobl a gyflogir fel "cynorthwyr personol" gan unigolion sy'n cael taliadau uniongyrchol gael eu cynnwys yn y diffiniad o 'weithwyr gofal cymdeithasol' er mwyn gwella'r trefniadau i ddiogelu'r bobl hyn sy'n agored i niwed. Bydd y rheoliadau yn cynnwys cynorthwyr personol o dan y diffiniad o 'weithiwr gofal cymdeithasol' ac felly'n datblygu ac yn cefnogi gallu Gofal Cymdeithasol Cymru. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnwys cynorthwyr personol o dan y gyfundrefn reoleiddio ar hyn o bryd gan y bydd hyn yn amharu ar yr annibyniaeth y mae'r cynllun "taliadau uniongyrchol" yn ei chynnig i ddefnyddwyr.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwneud rhai newidiadau i'r rheoliadau ar ôl yr ymgynghoriad. Mae rhai o'r rhain yn deillio o'r adborth i'r ymgynghoriad a byddant yn sicrhau y caiff y rheoliadau eu hatgyfnerthu i gyflawni eu diben arfaethedig. Diwygiadau drafftio technegol yw'r diwygiadau eraill, a fydd yn rhoi mwy o eglurder ynglŷn ag ystyr rhai o'r rheoliadau.

Diffiniad o Gwasanaethau Eirioli

Cafwyd neges gyson y dylid cydnabod bod rôl Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol yn wahanol i broffesiynau gwaith gofal cymdeithasol eraill, ac y dylai Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol gael eu cydnabod am eu safonau a'u cymwysterau proffesiynol.

Nododd rhai ymatebwyr fod angen atgyfnerthu'r cyswllt rhwng Deddf 2016, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Dull Gweithredu Cenedlaethol sy'n datblygu gan ei fod eisoes yn ymgorffori'r Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau eirioli statudol i blant ac y gall weithio tuag at gyflawni'r Datganiad am Lesiant.

Canolbwyntiodd adborth ar effaith bosibl costau ychwanegol, a'r posibilrwydd y câi'r costau ychwanegol hyn eu trosglwyddo i awdurdodau lleol a fydd yn comisiynu'r gwasanaethau hyn ar adeg pan fo eu cyllidebau eisoes o dan bwysau. Galwyd ar Lywodraeth Cymru i gydnabod bod angen ystyried goblygiadau anfwriadol bosibl rheoleiddio Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol fel y'u nodwyd gan ymatebwyr. Bydd rhagor o drafodaethau â rhanddeiliaid i ystyried y pwyntiau a godwyd yn fanylach.

Cydnabyddir na ddylai unrhyw reoliadau o dan y Ddeddf hon danseilio gallu'r sector i barhau â'i waith amhrisiadwy o gefnogi unigolion sy'n agored i niwed tra'n sicrhau bod yr un unigolion hyn yn cael eu diogelu gan Ddeddf 2016, a bod hyn yn rhywbeth a gaiff ei ystyried ymhellach er mwyn llywio gwaith ar gam dau y broses weithredu.

Pwysleisiwyd y gefnogaeth i weithredu fesul sector ac mae Llywodraeth Cymru yn deall pa mor bwysig yw sicrhau y caiff hyn ei wneud mewn ffordd nad yw'n rhoi unrhyw un sy'n darparu gwasanaeth nac unrhyw un sy'n cael gwasanaeth o dan anfantais, a thrwy gam dau y Ddeddf y bydd yn parhau i weithio gyda'r gweithgor technegol a'r grwpiau rhanddeiliaid ehangach i gael gwell dealltwriaeth o'r ffordd orau o weithredu gofynion Deddf 2016.

Y Camau Nesaf

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru bellach yn cymryd y camau angenrheidiol i ddiweddarau'r rheoliadau drafft yn unol â hynny, fel y'i nodwyd drwy'r adroddiad cryno cyfan hwn. Caiff y rheoliadau canlynol eu hailddrafftio a'u cyflwyno ar eu ffurf derfynol cyn diwedd y flwyddyn:

- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o bersonau sydd wedi eu tynnu oddi ar y Gofrestr)
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol (Cofrestru))
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr)
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithwyr Gofal Cymdeithasol")
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli: Personau Rhagnodedig)
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli)
- Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Ffurf Ragnodedig)

Ni chaiff y rheoliadau ynghylch gwasanaethau, a restrir isod, eu gosod fel rhan o gam un, ond cânt eu cyflwyno ynghyd â'r rheoliadau cysylltiedig

ynghylch gwasanaethau ar gam dau a fydd yn cychwyn ar ddechrau 2017 yn ôl y bwriad:

- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru)
- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol)
- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau)

Caiff y wybodaeth a gasglwyd mewn perthynas â'r diffiniad o wasanaethau eirioli ei defnyddio i lywio'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu rheoliadau cysylltiedig; a fydd hefyd yn digwydd ar gam dau.

Atodiad A - Rhestr o'r ymatebion

Rhif	Cyfrinachol le / Na	Enw	Sefydliad/Ar ran
1	*		
2		Tim Jenkins	Expanding Horizons
3	*		
4	*		
5		Richard Thomas	CBS Pen-y-bont ar Ogwr
6		Rachel Evans	Cyngor Dinas a Sir Abertawe
7		Peter Orford	Gofal Cymdeithasol a Thai Torfaen / CBS Torfaen
8		Vikas Lodhi	Pwyllgor Meddygol Cymru
9		Ruth Crowder	Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
10		Gethin Rhys	Cytûn
11	*		
12		George Jones	Tros Gynnal Plant
13		Emmeline Galilee	Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
14		Rachel Harrison	Action on Hearing Loss
15		Emma Murphy	Darparwyr Cartrefi Gofal - CBS Sir y Fflint
16		Emma Murphy	Darparwyr Gofal yn y Cartref - CBS Sir y Fflint
17		Sharon Lovell	NYAS
18		Ed Bridges	Cymdeithas Alzheimer
19		Peter Irvine	Pobl yn Gyntaf Sir Benfro
20	*		
21		Hugh Russell	Cartrefi Cymunedol Cymru
22		Jo Finch	Cyngor Dinas Caerdydd a'i Bartneriaid Gofal Cymdeithasol
23		Yr Athro Sally Holland	Comisiynydd Plant Cymru
24	*		
25	*		
26		Andrew Belcher	Mirus Wales
27		Stewart Blythe	ADSS Cymru a CLILC
28		Nicola Evans	Comisiynydd Pobl Hŷn
29		Rosanne Palmer	Age Cymru
30		Louise Davies	CBS Wrecsam
31		Lisa Turnbull	Coleg Nyrsio Brenhinol
32		Alison Clements	Gofal a Chymorth Gwalia
33		Maria Bell	Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau

				Cymdeithasol Gogledd Cymru
34		*	Sarah Capstick	C3SC
35		*	Linda Davies	Iechyd Cyhoeddus Cymru
36	*			
37	*			
38		*	Carol Walker	Adran Gofal Cymdeithasol ac Addysg Conwy
39		*	Melanie Minty	Fforwm Gofal Cymru
40	*			
41		*	Joe Powell	Pobl yn Gyntaf Cymru
42		*	Cathrin Manning	Y Groes Goch Brydeinig
43		*	Alison Hulmes	BASW Cymru
44		*	Sean O'Neill	Plant yng Nghymru - Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru
45		*	Gerry Evans	Cyngor Gofal Cymru
46		*	Jane Lane	Advocacy Matters (Wales)
47		*	Sean O'Neill	Plant yng Nghymru
48		*	Lynn Howells	Eiriol